# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| **RHYBUDD O GYFARFOD** | **NOTICE OF MEETING** |
|---|---|
| **PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL** | **CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE** |
| **DYDD LLUN, 1 MEDI 2014 am 2.00 o'r gloch** | **MONDAY, 1 SEPTEMBER 2014 at 2.00 pm** |
| **COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI** | **YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI** |
| **Swyddog Pwyllgor    Ann Holmes 01248 752518** | **Committee Officer** |

**AELODAU / MEMBERS**

Cynghorwyr / Councillors:-

**ANNIBYNNOL/INDEPENDENT**

Jim Evans, G O Jones (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), Victor Hughes, Raymond Jones

**PLAID CYMRU/THE PARTY OF WALES**

R.Meirion Jones (Cadeirydd/Chair), Lewis Davies, Ann Griffith a Llinos Medi Huws

**GRŴP CHWILDROAD/REVOLUTIONIST GROUP**

Peter Rogers

**HEB YMUNO/UNAFFILIATED**

R Ll Jones

**AELODAU CYFETHOLEDIG (GYDA PLEIDLAIS) PAN YN TRAFOD MATERIONYN YMWNEUD AG ADDYSG / CO-OPTED MEMBERS (WITH A RIGHT TO VOTE) WHEN DEALING WITH EDUCATIONAL MATTERS**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig / The Roman Catholic Church) a
Parch./Rev. Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **DIWEDDARIAD Y CADEIRYDD**

Derbyn diweddariad gan y Cadeirydd ynglyn ag unrhyw ddatblygiadau ers y cyfarfod blaenorol.

3 **COFNODION CYFARFOD 1 GORFFENNAF, 2014** (Tudalennau 1 - 4)

Bydd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf, 2014 yn cael eu cyflwyno i'w cadarnhau.

4 **MONITRO PERFFORMIAD - CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CHWARTER 1 2014/15** (Tudalennau 5 - 14)

Cyflwyno'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol am Chwarter 1 2014/15.

5 **MONITRO'R GYLLIDEB - Y GYLLIDEB GYFALAF CHWARTER 1 2014/15** (Tudalennau 15 - 24)

Cyflwyno adroddiad monitro'r Gyllideb Gyfalaf am Chwarter 1 2014/15.
*(Adroddiad a gyflwynywd i Bwyllgor Gwaith 8ed Medi, 2014)*

6 **MONITRO'R GYLLIDEB - Y GYLLIDEB REFENIW CHWARTER 1 2014/15** (Tudalennau 25 - 30)

Cyfwyno adroddiad monitro'r Gyllideb Refeniw am Chwarter 1 2014/15.
*(Adroddiad a gyflwynywd i Bwyllgor Gwaith 8ed Medi, 2014)*

7 **CYFEIRIAD GAN AELOD - CAU PARC SGLEFRIO LLANGEFNI Y TU ALLAN I GANOLFAN HAMDDEN PLAS ARTHUR**

Ystyried cyfeiriad gan y Cynghorydd T Victor Hughes (llafar).

8 **BLAENRAGLEN WAITH** (Tudalennau 31 - 32)

Cyflwyno'r Flaenraglen Waith.

9 **PRAWF BUDD Y CYHOEDD** (Tudalennau 33 - 34)

Ystyried mabwysiadu'r canlynol: -

*"Dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau a ganlyn, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei rhyddhau fel y diffinnir hi yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".*

**10** **TAI GOFAL YCHWANEGOL** (Tudalennau 35 - 40)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Trawsnewid Strategol (Gofal Cymdeithasol i Oedolion).

*(Mae hwn ar gyfer sgriwtini ac adborth cychwynnol, ac i roi amser i swyddogion ddarparu'r hyn fydd ei angen ar gyfer y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith fis Hydref).*

This page is intentionally left blank

# Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf 2014

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd R.Meirion Jones (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd G.O.Jones (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr Lewis Davies, Jim Evans, Ann Griffith, Llinos Medi Huws, Victor Hughes, Raymond Jones, R.Llewelyn Jones, Peter Rogers |
| **WRTH LAW**: | Prif Weithredwr<br>Cyfarwyddwr Cymuned<br>Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes<br>Pennaeth Swyddogaeth Dros Dro (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151<br>Pennaeth y Gwasanaethau Plant (ar gyfer eitem 6)<br>Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion (AJ)<br>Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg Dros Dro (BO) (ar gyfer eitemau 7 ac 8)<br>Uwch Gyfrifydd (Cynllunio Strategol) (BD) (ar gyfer eitem 7)<br>Swyddog Prosiect (ST) (ar gyfer eitemau 4 a 5)<br>Swyddog Sgriwtini (GR)<br>Swyddog Pwyllgor (ATH) |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorydd H.E.Jones (Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid) |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Y Cynghorydd Kenneth Hughes, (Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol), Y Cynghorydd Trefor Lloyd Hughes (Aelod Lleol – eitem 4), Y Cynghorydd Nicola Roberts (Aelod Lleol – eitem 5), Mr John R.Jones (Prif Swyddog Medrwn Môn) |

---

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 DIWEDDARIAD GAN Y CADEIRYDD**

Cyfeiriodd y Cadeirydd at yr isod –

- Lansio dogfen o'r enw '*Raising the Stakes: Financial Scrutiny in Challenging Times'* yng Nghaerdydd ar 26 Mehefin 2014 gan y Ganolfan ar gyfer Craffu Cyhoeddus. Roedd ef a'r Swyddog Sgriwtini wedi mynychu'r lansiad trwy gyswllt fideo o Swyddfa Ranbarthol Llywodraeth Cymru yng Nghyffordd Llandudno. Dywedodd y Cadeirydd y byddai trefniadau'n cael eu gwneud i Aelodau'r Pwyllgor gael copi o'r ddogfen sy'n delio gyda sgriwtini ariannol.
- Gweithdy Iaith Gymraeg yr oedd wedi bod yn bresennol ynddo ac a oedd yn rhoi sylw i'r Adroddiad Monitro Blynyddol ar yr Iaith Gymraeg.
- Cyfarfod a gynhaliwyd rhwng Swyddogion a Chadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Sgriwtini i roi sylw i faterion mewn perthynas â threfnu'r baich gwaith sgriwtini yn well ac er mwyn integreiddio'r rhaglen o waith sgriwtini gyda rhaglen y Pwyllgor Gwaith.
- Cyfeiriodd yr Is-Gadeirydd at waith a oedd yn cael ei wneud gan y panel adolygu ysgolion i sgriwtineiddio'n ofalus y materion hynny sy'n ymwneud â pherfformiad a dysgu.

**CAM GWEITHREDU YN CODI: Swyddog Sgriwtini i gylchredeg y ddogfen 'Raising the Stakes: Financial Scrutiny in Challenging Times' i Aelodau'r Pwyllgor.**

## 3 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 8 ac 12 Mai 2014 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

## 4 OPSIYNAU LLETY I BOBL HŶN - GARREGLWYD

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad yn amlinellu camau arfaethedig mewn perthynas â gwerthu Cartref Preswyl Garreglwyd ar ôl i'r broses ymgynghori ar y bwriad i werthu ddod i ben. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r rhesymeg a oedd wrth wraidd y cynnig i werthu Garreglwyd yn seiliedig ar asesiad o anghenion a wnaed gan y Gwasanaeth, yn ogystal â negeseuon allweddol a gafwyd yn sgil ymgynghori gyda chydranddeiliaid a phartïon sydd â diddordeb. Atodwyd adroddiad ar y Trosolwg o'r Ymgynghoriad.

Rhoddodd Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini sylw i'r wybodaeth a gyflwynwyd a gofynnwyd am ragor o eglurhad gan y Swyddogion mewn perthynas â'r materion isod -

- Y penderfyniad i beidio â gwneud unrhyw ymrwymiad comisiynu gyda'r gwerthiant.
- Y ffordd y mae'r Cyngor yn bwriadu sicrhau y bydd Garreglwyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer pobl sydd â dementia ac i gwrdd ag anghenion yr henoed bregus eu meddwl yn wyneb yr asesiad o anghenion sydd wedi dangos yn eglur bod angen datblygu'r ddarpariaeth o ran y gefnogaeth a'r llety sydd ar gael i'r rheini sy'n byw gyda dementia. Gofynnodd yr Aelodau am sicrwydd bod pob ymdrech yn cael ei gwneud i wireddu'r amod hwn yn y gwerthiant.
- Camau a gymerir i ddiogelu budd y staff a goblygiadau TUPE ar gyfer darpar brynwr.
- Yr angen hanfodol i flaenoriaethu gofal ar gyfer trigolion cyfredol Garreglwyd.
- Ar ôl ystyried y broses ymgynghori ar y bwriad i werthu Garreglwyd gyda'r amod ei fod yn cael ei werthu i'w ddefnyddio, gorau oll, fel cyfleuster dementia arbenigol, a yw'r Gwasanaeth wedi ei fodloni bod y trigolion a'u teuluoedd yn argyhoeddiedig mai hon yw'r ffordd orau ymlaen iddynt a'r opsiwn gorau ar gyfer eu gofal.
- P'un a yw'r ystod o ddarpariaethau gofal yn ardal Cybi yn ddigonol i gwrdd ag anghenion trigolion Garreglwyd ar hyn o bryd a'r dewisiadau y maent yn eu gwneud.
- P'un a yw'r rhagolygon o fedru darparu dewis yn realistig ac wedi eu cefnogi gan amrediad o opsiynau cymorth.
- A oes unrhyw drefniadau wedi eu gwneud i sicrhau nad yw darpar brynwr wedyn yn gwerthu'r adeilad a'r safle i ddibenion ac eithrio darparu gofal.
- Cysylltiadau gydag Ysbyty Stanley mewn perthynas â gofal dementia.
- Yr angen i ddiogelu ethos Cymraeg cartref preswyl Garreglwyd i'r dyfodol.

Ymatebodd y Swyddogion i'r cwestiynau a ofynnwyd gan nodi na fydd llawer o'r cynlluniau manwl yn cael eu cwblhau nes y bydd yr opsiynau pendant mewn perthynas â'r defnydd o Garreglwyd ar ôl ei werthu wedi eu cadarnhau.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn croesawu'r dull hwn o weithredu ar gyfer gwerthu Garreglwyd mewn perthynas â'r amod o ran y defnydd o'r cartref a fyddai'n cael ei ffafrio ac roeddent hefyd yn cefnogi'r cynnig yn yr adroddiad ar yr amod bod pwys arbennig yn cael ei roi ar ddefnyddio Garreglwyd fel cyfleuster dementia arbenigol ar ôl ei werthu ac i ystyriaethau mewn perthynas â'r Iaith Gymraeg.

**Penderfynwyd argymell i'r Pwyllgor Gwaith ei fod yn mabwysiadu argymhelliad yr adroddiad fod Garreglwyd yn cael ei werthu i'w redeg, gorau oll, fel cyfleuster dementia arbenigol neu ddarpariaeth gofal preswyl preifat neu nyrsio preifat yn unol â'r amodau a nodwyd yn yr adroddiad a chyda'r argymhelliad ychwanegol bod pwys yn cael ei roi ar y ddarpariaeth dementia ac ar ystyriaethau mewn perthynas â'r Iaith Gymraeg.**

**DIM CAM GWEITHREDU YN CODI**

## 5 CWRDD AG ANGHENION OEDOLION HŶN: OPSIYNAU LLETY YN AMLWCH A LLANGEFNI

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor adroddiad yn nodi cynnig ar gyfer datblygu darpariaeth gofal ychwanegol yn Amlwch a Llangefni a dadgomisiynu'r cartrefi gofal preswyl cyfredol yn yr ardaloedd hynny. Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r ystyriaethau o ran y buddsoddiad

DRAFT

angenrheidiol; nodi safleoedd tir a phenderfynu ar fodelau gofal a chyllido. Cefnogwyd yr adroddiad gan fodel ariannol ac achos busnes a gyflwynwyd yn llawn i Aelodau'r Pwyllgor.

Roedd Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn cefnogi'r cynigion mewn egwyddor ac roeddynt yn cytuno y dylai gwaith ymchwilio a thrafodaethau barhau ar yr amod bod y pwyntiau isod yn cael eu nodi;

- Yr angen i roi sylw manwl a thrylwyr i nodi model gofal priodol a pharhaus - gofynnwyd pa waith ymchwil a oedd wedi ei wneud hyd yma a nodwyd enghreifftiau o arferion da.
- Pwysigrwydd hanfodol nodi lleoliad addas ar gyfer y ddarpariaeth o ran ei agosrwydd i'r dref a chyfleusterau, gan sicrhau felly bod y ddarpariaeth yn rhan o'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu ac yn hwyluso mynediad ar gyfer y defnyddwyr.
- Yr angen i gynnal proses ymgynghori gynhwysol.

**Penderfynwyd cefnogi'r cynnig i ddatblygu darpariaeth tai gofal ychwanegol yn Amlwch a Llangefni mewn egwyddor ar y llinellau a ddisgrifir yn yr adroddiad.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## 6 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyflwynwyd drafft terfynol Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2013/4 i'r Pwyllgor roi sylw iddo a chyflwyno ei sylwadau.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Cymuned ar y strwythur a'r fframwaith adrodd ar gyfer yr adroddiad blynyddol gan dynnu sylw at y negeseuon allweddol sy'n codi yn sgil gwerthuso'r holl feysydd gwasanaeth a'u perfformiad dros 2013/14 yn seiliedig ar ddadansoddiad grid sy'n amlinellu amcanion, cyflawniad a chanlyniadau gwasanaethau ar gyfer defnyddwyr. Gwnaeth sylw hefyd ar yr heriau oedd yn codi o hynny. Er bod perfformiad yn y gwasanaethau plant a'r gwasanaethau oedolion wedi bod yn dda dros y flwyddyn gyda nifer o Ddangosyddion Perfformio yn y chwartel uchaf, dywedodd bod angen ystyried y perfformiad mewn perthynas â'r gwasanaethau oedolion yng nghyd-destun y rhaglen drawsnewid gorfforaethol a'r gwaith sylweddol sydd wedi ei wneud mewn perthynas â ffrydiau gwaith gofal cymdeithasol dan y rhaglen drawsnewid ehangach yn ystod y cyfnod hwnnw. Mewn perthynas â'r gwasanaethau plant, mae llawer wedi ei gyflawni o ran gostwng dibyniaeth ar staff asiantaeth dros dro ac atgyfnerthu'r gweithlu parhaol.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion ar yr hyn a gyflawnwyd yn ystod 2013/14 a'r blaenoriaethau yn 2014/15 gan bwysleisio mai'r amcan o hyd yw sicrhau bod y gwasanaethau hyn o'r safon uchaf.

Adroddodd y Pennaeth y Gwasanaethau Plant ar y cynnydd a'r perfformiad yn erbyn blaenoriaethau'r llynedd o bersbectif y Gwasanaethau Plant, yn ogystal â diweddaru'r Aelodau ar yr ymateb o ran rhoi sylw i faterion a oedd wedi dod I'r wyneb yn ddiweddar.

Nododd yr aelodau fod ganddynt gyfle i gyflwyno sylwadau ar adroddiad y Cyfarwyddwr hyd nes y bydd wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar 14 Gorffennaf.

**Penderfynwyd derbyn Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar gyfer 2013/14 a nodi ei gynnwys yn amodol ar unrhyw sylwadau ychwanegol a all gael eu gwneud yn y cyfnod hyd at 14 Gorffennaf.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## 7 MATERION CYLLID - ALLDRO CYLLIDEB GYFALAF 2013/14

Cyflwynwyd adroddiad mewn perthynas â'r alldro ar gyfer y gyllideb gyfalaf am 2013/14 fel y cafodd ei gyflwyno i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 9 Gorffennaf 2014, ac fe'i nodwyd gan Aelodau'r Pwyllgor.

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

## 8 ALLDRO AMODOL - CYLLIDEB REFENIW 2013/14

Cyflwynwyd, er gwybodaeth i'r Pwyllgor, adroddiad ar y sefyllfa arwyddol derfynol mewn perthynas â gwariant refeniw yng Nghronfa'r Cyngor ar gyfer 2013/14 fel y cafodd ei gyflwyno i'r cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 9 Gorffennaf 2014.

DRAFT

Dywedodd y Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg Dros Dro fod y cyfanswm tanwariant ar adeg cau cyfrifon 2013/14 yn £1.2m.

Cadarnhaodd y Swyddog Adran 151 dros dro fod cyfrifon 2013/14 wedi eu cau cyn diwedd 30 Mehefin, sef y dyddiad cau statudol, a'i fod yn dymuno cofnodi ei ddiolchgarwch am ymdrechion staff y Gwasanaeth Cyfrifeg ac am y cyfraniad a wnaed gan staff eraill i'r broses o gau'r cyfrifon. Bydd y cyfrifon yn awr yn cael eu harchwilio'n allanol.

**Penderfynwyd nodi'r adroddiad.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

**9 BWRDD RHAGLEN TRAWSNEWID CORFFORAETHOL**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, adroddiad gan Reolydd y Rhaglen Trawsnewid yn amlinellu'r cynnydd hyd yma mewn perthynas ag elfennau o'r Byrddau Trawsnewid Corfforaethol.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Cymuned ar y gwaith a wnaed hyd yma gan y Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Busnes gan gyfeirio'n benodol at ffrydiau gwaith a oedd yn ymwneud â gofal cymdeithasol.

**Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.**

**DIM CAM GWEITHREDU PELLACH YN CODI**

**10 CYFARFOD NESAF**

Adroddwyd a nodwyd bod cyfarfod nesaf y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi ei drefnu ar gyfer Dydd Llun 1 Medi 2014 am 2:00 p.m.

**Y Cynghorydd R.Meirion Jones**
**Cadeirydd**

DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **SGRIWTINI CORFFORAETHOL / PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **1.9.14 / 8.9.14** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL AR GYFER CHWARTER 1** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD ALWYN ROWLANDS** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | **DIRPRWY BRIF WEITHREDWR** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **RHEOLWR RHAGLEN A CHYNLLUNIO BUSNES** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ER GWYBODAETH AC I ARCHWILIO'R CERDYN SGORIO** |

DRAFT

## 1. RHAGARWEINIAD

**1.1** Un o nodau'r Cyngor dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella yw sicrhau cyfrwng ar gyfer tystiolaethu a chyflwyno gwybodaeth am welliant parhaus. I'r perwyl hwnnw, rhaid drafftio a chyhoeddi adroddiad ar berfformiad y Cyngor erbyn diwedd mis Hydref bob blwyddyn i ddangos y cynnydd a wnaed (neu fel arall).

**1.2** Datblygwyd y cerdyn sgorio hwn i hysbysu a dwyn sylw arweinwyr y Cyngor at y cynnydd a wnaed yn erbyn y dangosyddion er mwyn dangos yn glir fod gwaith dydd i ddydd y Cyngor yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus ac i gynorthwyo i sefydlu sylfaen dystiolaeth i'w defnyddio fel sail ar gyfer drafftio'r adroddiad ar berfformiad.

## 2. CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL

**2.1** Mae'r cerdyn sgorio yn parhau i ddatblygu a gwreiddio, gan adlewyrchu'r newidiadau hynny a wnaed i systemau ac arferion traddodiadol o fewn y Cyngor. Mae'r dangosyddion sydd wedi eu cynnwys yn y cerdyn sgorio ar gyfer eleni wedi eu penderfynu yn sgil ymgysylltu ac ymgynghori gyda Phenaethiaid, yr Uwch Dim Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.

**2.2** O ganlyniad, yn achos rhai dangosyddion bydd angen mwy o amser i'r prosesau adrodd wreiddio'n llawn cyn y gellir adrodd arnynt. Rhagwelir y bydd y prosesau hyn wedi ymwreiddio erbyn Chwarter 2 y flwyddyn ariannol hon.

**2.2** Mae'r cerdyn sgorio cyfredol (Atodiad 1) yn dangos y sefyllfa ar ddiwedd chwarter 1 ac fe gaiff sylw gan y Pwyllgor Gwaith ar 8 Medi, 2014.

## 3. YSTYRIAETHAU

**3.1** Hon yw'r ail flwyddyn o gasglu ac adrodd ar ddangosyddion perfformio mewn dull cydlynol. Mae'r Cyngor yn dechrau gweld patrymau yn dod i'r amlwg mewn perthynas â nifer o'r dangosyddion hyn.

**3.2** Mae'n bwysig nodi fod cais wedi ei wneud am i'r cerdyn sgorio ar gyfer eleni gynnwys dadansoddiad pellach o'r patrymau, trem yn ôl dros berfformiad y llynedd a chydnabyddiaeth o ddangosyddion penodol mewn perthynas â chwartelau.


**3.3** Hyd yma, nid yw gwybodaeth o'r fath yn cael ei chasglu oherwydd gwirio a dilysu dangosyddion cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru dros fisoedd yr haf.

### 3.4 RHEOLI POBL

**3.4.1** Fodd bynnag, mewn perthynas â Rheoli Pobl, nodwyd bod ein **cyfraddau salwch** ar ddiwedd Chwarter 4 (*dangosydd 1 ar y cerdyn sgorio dan rheoli pobl*) yn dangos sefyllfa well ar ddiwedd y flwyddyn o gymharu â chanlyniadau'r llynedd. 12.38 o ddyddiau o gymharu â 14.45 o ddyddiau.

**3.4.2** Mae'r gwelliant hwn wedi parhau ar ddiwedd Chwarter 1 sy'n dangos y collwyd **2.78** o ddyddiau yn ystod y chwarter oherwydd salwch am bob Gweithiwr Llawn Amser (gweler Tabl (i)). Er bod hyn ychydig yn uwch na'r targed corfforaethol o 2.5 o ddyddiau, mae'n welliant sylweddol o gymharu â ffigyrau'r chwarter cyntaf y llynedd a oedd yn dangos bod **3.4** o ddyddiau wedi eu colli ar draws y Cyngor bryd hynny.

Tabl (i)











DRAFT

**3.4.3** O ystyried y data cymharu â amlinellir yn y tabl uchod (i), os bydd y Cyngor yn parhau i berfformio yn unol â'r patrymau salwch a welwyd yn 13/14 rhagwelir y bydd ein cyfraddau ar ddiwedd y flwyddyn yn cyfateb i **10.12** o ddyddiau am bob Gweithiwr Llawn Amser a fydd eto yn welliant sylweddol ar ffigyrau 13/14.

**3.4.4** Mae sut y rheolir salwch hefyd yn gysylltiedig â'r cyfraddau salwch. Rhan annatod o'r broses yn y Cyngor yw cydymffurfiaeth staff gyda'r polisïau salwch corfforaethol sy'n cynnwys **cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith** (*dangosydd 5 ar y cerdyn sgorio*).

**3.4.5** Mae'r Cyngor yn parhau i wreiddio'r arferion gweithio hyn ar draws ei wasanaethau a gellir dweud yn bendant bod cyflogi cydlynydd salwch pwrpasol wedi arwain at welliant yn y ffigyrau corfforaethol ers y llynedd. Atgyfnerthwyd hyn ymhellach yn ystod y chwarter cyntaf, gyda nifer y Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith yn codi o 59% ar ddiwedd (13/14) i oddeutu **80%** yn ystod Chwarter 1 fel y dangosir yn Nhabl (ii) isod.

Tabl (ii)




**3.4.6** Mewn perthynas â ffigyrau absenoldeb salwch - rhoddwyd targed gwahanol i bob gwasanaeth yn seiliedig ar ddata hanesyddol / patrymau o ran absenoldebau salwch. Mae'r targedau hyn wedi eu cyfrifo mewn ffordd sy'n gwneud y targedau'n fwy cyraeddadwy ac yn fwy ystyrlon felly i'r gwasanaethau. Os llwyddir i gwrdd â'r targedau bydd y Cyngor yn cwrdd â'i darged o 10 diwrnod am bob Gweithiwr Llawn Amser.

**3.4.7** Fodd bynnag, y gwasanaethau sy'n perfformio'n waeth na'r targed ar hyn o bryd yw'r Gwasanaethau Adnoddau, Gwasanaethau Plant a Busnes y Cyngor. Gwneir rhagor o waith i fonitro'r gwasanaethau hyn yn ystod Chwarter 2.

**3.4.8** Er bod y Cyngor yn llwyddo i berffomio'n well yn erbyn ei darged salwch bob blwyddyn nodir fod cost <u>dybiannol</u> salwch ar gyfer Chwarter 1 yn uwch na £500k.

**3.4.9** Yn yr un modd, y Gwasanaethau lle mae angen gwneud gwelliannau o ran y canrannau o Gyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith a gwblhawyd yn Chwarter 1 yw - Gwasanaethau Plant (59%), Busnes y Cyngor (57%) ac Adfywio Economaidd a Chymunedol (63%).

**3.4.10** Dygir sylw'r Pwyllgor at y ffigyrau mewn perthynas â Chyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith ar gyfer y Gwasanaeth Dysgu sydd wedi gwella'n sylweddol o'r data cymharu ar gyfer Chwarter 1 13/14 (0%), gydag 87% o'r Cyfweliadau wedi eu cynnal yn ystod Chwarter 1 ar draws y gwasanaeth (gan gynnwys yr ysgolion).

**3.4.11** Fel y nodwyd yn Chwarter 4 (13/14) ac unwaith eto yma ar ddiwedd Chwarter 1 (14/15) mae'r Uwch Dim Arweinyddiaeth yn cydnabod, ar ôl cymryd y gwelliannau wnaed i ystyriaeth ac er mwyn sicrhau bod y gwelliant yn parhau - bod angen ymwreiddio prosesau ac arferion rheoli da trwy ddysgu gwersi yn ystod 2014/15 er mwyn sicrhau bod ein cyfraddau salwch yn gwella eto a bod costau salwch yn gostwng a bod rheolaeth o'r sefyllfa'n gwella hefyd.

## 3.5 RHEOLAETH ARIANNOL

**3.5.1** Hwn yw'r chwarter cyntaf ers cyflwyno'r cerdyn sgorio lle casglwyd ac adroddwyd ar wybodaeth ariannol. Cydnabyddir nad yw'r adroddiad hwn ond yn rhoi cipolwg ar y sefyllfa ar ddiwedd y Chwarter ac nad ydym wedi adrodd ar bob dangosydd. Gellir cael mwy o wybodaeth o'r adroddiad monitro ariannol ar gyfer Chwarter 1 yn y cyfarfod yma.

**3.5.2** Fodd bynnag, yn seiliedig ar wybodaeth yr adroddwyd arni, gellir nodi bod gwahaniaeth sylweddol o gymharu â'r proffil ar gyfer gwariant yn Chwarter 1. Mae hynny oherwydd y nifer o staff asiantaeth allanol a gyflogir er mwyn cwblhau'r datganiad cyfrifon a'r archwiliad dilynol sydd i'w gwblhau erbyn 30ain Medi.

**3.5.3** Yn ogystal, nodir bod y Gwasanaeth Dysgu wedi rhagori'n sylweddol ar ei darged incwm ar gyfer Chwarter 1 oherwydd derbyn grantiau sydd heb eu proffilio ar hyn o bryd. Mae'r Gwasanaeth Oedolion a'r Gwasanaeth Adfywio Economaidd a Chymunedol wedi tangyflawni o gymharu â'u targedau incwm chwarterol.

**3.5.4** Mae'r Gwasanaethau Oedolion wedi tangyflawni oherwydd natur y ddarpariaeth sy'n cael ei gyrru gan y galw, ond mae'r ffigyrau ar gyfer Adfywio Economaidd a Chymunedol yn seiliedig ar y drefn arferol lle mae'r ffigyrau'n cael ei rhoi i mewn yn y system yn faniwal ar ddiwedd y chwarter. Erbyn diwedd Chwarter 3 eleni rhagwelir y bydd y prosesau maniwal hyn wedi eu disodli gan brosesau electronig a fydd yn darparu darlun eglurach a mwy cyfredol o'r perfformiad ariannol yn erbyn incwm.


**3.5.5** Nodir yn yr adroddiad hefyd bod y sefyllfa ar ddiwedd y chwarter o ran y gwariant a broffiliwyd yn erbyn cyflogau yn dangos gorwariant o bron i £1miliwn. Mae hynny'n gyson â'n gwariant ar staff asiantaeth sy'n gwneud cyfanswm oddeutu £500k yn y cerdyn sgorio ond sydd hefyd yn adlewyrchu ymrwymiad hyd at ddiwedd Chwarter 2.

**3.5.6** Er bod rhai meysydd yn achosi pryder i'r Uwch Dim Arweinyddiaeth caiff y sefyllfa yn y chwarter hwn ei harchwilio ymhellach dros fisoedd yr haf gyda golwg ar ddod o hyd i batrymau a nodi pryderon gwirioneddol erbyn diwedd Chwarter 2 fel bod modd rhai mesurau lliniarol ar waith.

## 3.6 RHEOLI PERFFORMIAD

**3.6.1** Mewn perthynas â rheoli perfformiad, mae dau ddangosydd o fewn y **Gwasanaethau Oedolion** yn dangos tanberfformiad -

**3.6.1.1** (i) *03 - SCA/018b - y % o ofalwyr ar gyfer Oedolion y cynhaliwyd adolygiad/asesiad o'u hangenion.* Mae'r dangosydd hwn yn dangos yn GOCH ar y cerdyn sgorio. Mae'r canlyniad o 36.4% ar gyfer chwarter 1 yn isel o gymharu â chyfanswm o 45.7% ar ddiwedd chwarter 1 2013/14 ac yn isel iawn o gymharu â tharged blynyddol o 70%. O'r 241 o gleientiaid sydd heb eu hasesu hyd yma, mae 62 (26%) wedi gwrthod asesiad ac mae 179 (74%) yn disgwyl cael asesiad neu adolygiad. Mae'r arwyddion cynnar yn awgrymu y bydd y dangosydd hwn yn gwella yn ystod chwarter 2, y cyfartaledd trwy Gymru yn 12/13 oedd 38.7% (nid yw'r ffigyrau ar gyfer 13/14 wedi eu rhyddhau hyd yma).




***3.6.1.2*** (ii) *04 - SCA/018c - y % o ofalwyr ar gyfer Oeodlion a gafodd eu hasesu neu eu hailasesu yn ystod y flwyddyn ac a dderbyniodd wasanaeth.* Mae'r dangosydd hwn hefyd yn dangos yn GOCH. Mae'r dangosydd (62.3%) yn dangos tanberfformiad yn erbyn y targed o 75% a hefyd o gymharu â chwarter 1 13/14 (69.7%),

**3.6.2** Mae'r cerdyn sgorio hefyd yn dwyn sylw at danberfformiad o ran un o'r dangosyddion ar gyfer y **Gwasanaethau Plant** -

**3.6.2.1** (i) *12 - SCC/043a - y % o asesiadau craidd gofynnol a gwblhawyd cyn pen 35 diwrnod gwaith.* Mae'r dangosydd hwn yn dangos tanberfformiad yn erbyn y targed a'r data a gasglwyd yn Chwarter 1

13/14 (90.91%). Sylwodd y Gwasanaeth bod tanberfformiad yn erbyn y dangosydd hwn ar ddechrau'r chwarter (40% yn ystod mis Ebrill) a chymerwyd camau cadarnhaol i wella'r sefyllfa. Er ei fod yn perfformio'n is na'r targed oherwydd cymhlethdodau'r achosion, cydnabyddir fod perfformiad wedi dirywio er gwaethaf cychwyn da i 13/14. Oni chymerir camau lliniarol (fel ar hyn o bryd) mae perygl y bydd tanberfformiad yn erbyn y dangosydd hwn am eleni.

**3.6.3** Y ddau ddangosydd arall sy'n dangos tanberfformiad ar ddiwedd Chwarter 1 yw –

**3.6.3.1** (i) *19 - LCS/002b: Nifer y deunyddiau llyfrgell a gyhoeddwyd yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth.* Mae hwn yn dangos tanberfformiad o 10% o gymharu â'r targed ar gyfer y chwarter 1af a

**3.6.3.2** (ii) *37 - Y prosiect trawsnewid hamdden .* Adroddir ar gyfeiriad, gweithgareddau a chynnydd yn y cyfarfod o'r Bwrdd Rhagoriaeth Gwasanaeth a gynhelir ar ddiwedd mis Medi.

**3.6.4** Mae'r cerdyn sgorio ar gyfer eleni yn dwyn sylw at berfformiad ein gwasanaeth gwastraff o ran casglu gwastraff o aelwydydd ar draws yr Ynys. Er cofnodi bod 53 o gasgliadau wedi eu methu yn ystod Chwarter 1 dygir i sylw'r Pwyllgor fod hyn allan o ffigwr oddeutu 1.1miliwn o gasgliadau ledled yr Ynys sy'n cyfateb i gyfradd o 0.005%.

**3.6.5** Mae dangosyddion rheoli perfformiad eraill o fewn terfynau goddefiant ac yn cael eu monitro'n rheolaidd gan ein trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol gydag eithriadau yn cael eu dwyn i sylw'r Uwch Dim Arweinyddiaeth yn rheolaidd.

**3.6.6** Ar ôl dweud hynny, mae angen gwneud rhagor o waith i gysoni arferion gwaith fel bod yr holl ddangosyddion yn cael eu cyfathrebu'n amserol ar ddiwedd chwarter er mwyn cael dealltwriaeth gynhwysfawr o'n trefniadau rheoli perfformiad trwy'r strwythur pwyllgorau. Mae'r dangosyddion lle mae angen casglu gwybodaeth fel a ganlyn -

**3.6.6.1** Addysg
**3.6.6.2** Cytundeb Canlyniadau

**3.6.7** Mae trafodaethau'n parhau dan arweiniad yr UDA i gywiro'r materion hyn fel bod modd cael dealltwriaeth gynhwysfawr o'n dangosyddion perfformio mewn dull amserol fel bod modd hysbysu arweinwyr y Cyngor o gynnydd a wnaed yn erbyn yr holl dargedau.

## 3.7 GWASANAETH CWSMER

**3.7.1** O ran y maes hwn, gwelwyd gwelliant yn y sefyllfa gyda nifer y cwynion a dderbyniwyd yn llai na'r targed. Yn ystod Chwarter 1 dim ond 12 cwyn a gafwyd o gymharu â tharged o 16. Fe gafodd 6 o'r cwynion hynny eu cadarnhau'n gyfan gwbl neu'n rhannol gyda'r gweddill yn aflwyddiannus. Unwaith eto mae hyn yn well sefyllfa nag yn 13/14 lle cafwyd 65 o gwynion.



DRAFT

**3.7.2** Mae data Chwarter 1 ar gyfer rheoli cwynion yn dangos ein bod yn cydnabod ac yn ymateb i gwynion o fewn yr amserlenni. Os bydd y patrwm hwn yn parhau rydym yn rhagweld y bydd y Cyngor yn derbyn llawer llai o gwynion. Mae hynny'n dibynnu wrth gwrs ar sut y byddwn yn rheoli materion sy'n dod i'r wyneb a'n hymdrechion i ganolbwyntio ar y cwsmer, y dinesydd a'r gymuned fel sydd wedi ei nodi yng Nghynllun Corfforaethol 2013-17.

**3.7.3** O ran mabwysiadu dull o weithio sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, un maes y mae swyddogion wedi cael anhawster i gwrdd â'r targed yw ymateb i geisiadau dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth o fewn yr amserlen. Cafwyd 237 o geisiadau o'r fath yn ystod Chwarter 1 (neu 3.65 am bob diwrnod gwaith). Roedd angen ymateb i 1008 o gwestiynau. O'r rhain roedd disgwyl bod rhaid i'r Cyngor ymateb i 166 o geisiadau ( 2.5 y diwrnod) dros y cyfnod ac mae hynny'n dangos bod gan y maes hwn oblygiadau mawr o ran adnoddau os bydd y gyfradd hon yn parhau fel y mae neu'n codi eto ar draws y Cyngor.

**3.7.3.1** Gwneir y rhan fwyaf o'r ceisiadau hyn gan –

3.7.3.1.1 Y Cyfryngau
3.7.3.1.2 Ymgeiswyr Preifat
3.7.3.1.3 Cwmnïau preifat eraill

**3.7.3.2** Gellir cael gwybodaeth fanylach yn http://www.anglesey.gov.uk/council-and-democracy/data-protection-and-foi/council-access-to-information-statistics/

## 4.ARGYMHELLION

**4.1** Gofynnir i'r Pwyllgor archwilio'r cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dim Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir eu crynhoi fel a ganlyn -

4.1.1 Rheoli salwch – ymwreiddio prosesau rheoli ar draws y Cyngor fel bod modd i ni ddysgu oddi wrth ein gilydd gyda'r nod o ostwng cyfraddau salwch i darged corfforaethol o 10 o ddyddiau salwch fesul pob Gweithiwr Llawn Amser.
4.1.2 Casglu data perthnasol ynghylch rheoli perfformiad, a hynny mewn dull amserol, er mwyn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr i Aelodau ac Uwch Swyddogion ynghylch y sefyllfa gyfredol gyda phob un o'r dangosyddion.
4.1.3 Rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â meysydd gwaith sy'n tanberfformio ac a fyddai yn creu anawsterau o ran darparu gwasanaethau pe baent yn cael eu hanwybyddu – bydd bwrw ymlaen ac egluro cyfeiriad mewn perthynas â thrawsnewid ein darpariaeth llyfrgelloedd a'n darpariaeth hamdden yn flaenoriaeth.
4.1.4 Ceisiadau dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth - adolygiad o'r prosesau sy'n gysylltiedig â chwrdd â'r ceisiadau hyn.

**4.2** Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y mesurau lliniarol ar gyfer unrhyw feysydd sy'n achosi pryder fel yr amlinellir uchod fel bod modd eu cyfathrebu i'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 8 Medi, 2014.

**GETHIN MORGAN – Rheolwr Rhaglen a Chynllunio Busnes**
**31 Gorffennaf, 2014**

DRAFT

| Customer Service | Actual | Target | RAG | Trend | 13/14 Result |
|---|---|---|---|---|---|
| 01) No of Complaints received | 12 | 16 | Green | ↑ | 65 |
| 02) No of Complaints upheld | 6 | 4 | Amber | ↓ | 15 |
| 03) % of Complaints acknowledged within 5 working days | 100% | 100% | Green | - | - |
| 04) % of written responses within 20 days | 100% | 100% | Green | - | - |
| 05) Number of concerns | 10 | 23 | Green | ↑ | 92 |
| 06) Number of compliments | 112 | - | - | - | - |
| 07) No. of Ombudsman referrals upheld | 0 | 0 | Green | → | - |
| 08) Mystery Shopper Scores 0-4 (Annual) | - | - | - | - | - |
| 09) Mystery Shopper Scores 5-7 (Annual) | - | - | - | - | - |
| 10) Mystery Shopper Scores 8-10 (Annual) | - | - | - | - | - |
| 11) Average time taken to answer telephone (sec) | 9 | 15 | Green | → | - |
| 12) % of telephone calls abandoned | 13% | 15% | Green | ↑ | - |
| 13) % of correspondance acknoweldged to within 5 working days (mystery shopper) (Annual) | - | - | - | - | - |
| 14) % of correspondance repied to within 15 working days (mystery shopper) (Annual) | - | - | - | - | - |
| 15) % of FOI Requests Responded to Within Timescale | 57% | 80% | Red | ↓ | - |
| 16) Number of FOI Requests Responded to Within Timescale | 86 | - | - | - | - |

| People Management | Actual | Target | RAG | Trend | 13/14 Result |
|---|---|---|---|---|---|
| 01) Sickness absence - average working days/shifts lost | 2.78 | 2.5 | Amber | ↑ | 12.38 |
| 02) No of staff with attendance of 100% (6 Months) | - | - | - | - | - |
| 03) Short Term sickness | 3214 | - | - | - | 16.5k |
| 04) Long Term sickness | 3314 | - | - | - | 12.3k |
| 05) % of RTW interview held | 80% | 80% | Green | ↑ | 59% |
| 06) % of stress related sickness | 8% | 9% | Green | ↑ | 10% |
| 07) No. of occupational health referrals | 83 | - | - | - | 362 |
| 08) No. or workplace injuries | 47 | 79 | Green | ↑ | 315 |
| 09) No. of PDR's completed within timeframe (Qtr 2) | - | - | - | - | - |
| 10) Number of staff authority wide, including teachers and school based staff (FTE) | 2353 | - | - | - | 2366 |
| 11) Number of staff authority wide, excluding teachers and school based staff(FTE) | 1399 | - | - | - | 1395 |
| 12) Local Authority employees leaving (%) (Turnover) (Annual) | - | - | - | - | - |
| 13) Local Authority employees made redundant (compulsory) | 17 | - | - | - | - |
| 14) No. of Agency Staff | 24 | - | - | ↓ | 18 |
| 15) No of grant funded posts | 122.5 | - | - | ↓ | 128.75 |
| 16) % of staff with email facility | 54 | - | - | ↑ | 52 |

| Financial Management | Spend (£) | Variance (%) | RAG | Trend | 13/14 Result |
|---|---|---|---|---|---|
| 01) Projected end of year position | | | | - | - |
| 02) Spend v Profile (Over spending) Resources | £1,203,225.00 | 26.28% | Red | - | - |
| 04) Spend v Profile (Under spending) Learning | -£382,918.00 | -37.22% | Amber | - | - |
| 05) Achievement against efficiencies (over/under) Service 1 | - | - | - | - | - |
| 06) Achievement against efficiencies (over/under) Service 2 | - | - | - | - | - |
| 07) Achievement against efficiencies (over/under) Service 3 | - | - | - | - | - |
| 08) Income v Targets – (Under achieving) Adults Services | £161,606.00 | 11.49% | Amber | - | - |
| 09) Income v Targets – (Under achieving) Economic & Community | £87,596.00 | 11.58% | Amber | - | - |
| 10) Income v Targets – (Over achieving) Learning | -£1,460,593.00 | 106.27% | Red | - | - |
| 11) Aged debt analysis across all categories of debt | - | - | - | - | - |
| 12) Spend v Salary (£) Over + / under spending (-) | £945,342.00 | - | - | - | - |
| 13) Spend v Salary (% of Total Budget) | £37,824,760.00 | - | - | - | - |
| 14) Cost of agency staff (£'000) | £553,874.00 | - | - | - | - |
| 15) Cost of sickness absence – direct & indirect (Notional cost) | £559,345.04 | - | - | - | - |
| 16) Grants Income – Welsh Government | - | - | - | - | - |
| 17) Grants Income - European | - | - | - | - | - |
| 18) Grants Income – Other | - | - | - | - | - |

| Performance Management | Actual | Target | RAG | Trend | Quartile | 14/15 Target | 13/14 Result |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01) SCA/002a: The rate of older people (aged 65 or over) supported in the community per 1,000 population aged 65 or over at 31st March | 54.72 | 55 | Green | ↑ | - | 55 | - |
| 02) SCA/002b: The rate of older people (aged 65 or over) whom the authority supports in care homes per 1,000 population aged 65 or over at 31 March | 18.10 | 19 | Green | → | - | 19 | 18.16 |
| 03) SCA/018b: The percentage of carers of adults who had an assessment or review of their needs in their own right during the year | 36.4 | 70 | Red | ↓ | - | 70 | 63.2 |
| 04) SCA/018c: The % of carers of adults who were assessed or re-assessed in their own right during the year who were provided with a service | 62.3 | 75 | Red | ↓ | - | 75 | 73.9 |
| 05) SCA/019: The % of adult protection referrals completed where the risk has been managed | 100 | 90 | Green | ↑ | - | 90 | 88.9 |
| 06) SCC/004: The percentage of children looked after on 31 March who have had three or more placements during the year | 0 | 8 | Green | ↑ | - | 8 | 7.79 |
| 07) SCC/011a: The % of initial assessments that were completed during the year where there is evidence that the child has been seen by the Social Worker | 98.57 | 100 | Green | ↑ | - | 100 | 92.22 |
| 08) SCC/042a: The % of initial assessments completed within 7 working days | 98.57 | 85 | Green | ↑ | - | 85 | 90.86 |
| 09) SCC/014: The % of initial child protection conferences due in the year which were held within 15 working days of the strategy | 96.43 | 100 | Green | ↑ | - | 100 | 92.66 |
| 10) SCC/025: The % of statutory visits to looked after children due in the year that took place in accordance with regulations | 96.94 | 100 | Green | ↑ | - | 100 | 90.54 |
| 11) SCC/041a: The percentage of eligible, relevant and former relevant children that have pathway plans as required | 90 | 100 | Amber | ↑ | - | 100 | 77.78 |
| 12) SCC/43a: The % of required core assessments completed within 35 working days | 70.27 | 85 | Amber | ↓ | - | 85 | 71.68 |
| 13) HHA/002 The average number of days between homeless presentation and discharge of duty for households found to be statutorily homeless | 286 | 600 | Green | ↑ | - | 600 | 531 |
| 14) HHA/017a The average number of days all homeless families with children spent in bed and breakfast. | 10.5 | 42 | Green | ↓ | - | 42 | 90.8 |
| 15) HHA/017b the average number of days that all homeless households spent in other forms of temporary accommodation | 260.4 | 650 | Amber | ↑ | - | 650 | 621.6 |
| 16) LCL/001b: The no. of visits to public libraries during the year, per 1,000 per population | 69k | 70k | Amber | ↓ | - | 281k | 219k |
| 17) LCL/004: The no. of library materials issued, during the year per 1,000 population | 72k | 80k | Red | ↓ | - | 310k | 309k |
| 18) No. of attendances (young people) at sports development / outreach activity programmes | 36k | 31k | Green | ↑ | - | - | - |
| 19) LCS/002b: The number of visits to local authority sport and leisure centres during the year where the visitor will be participating in physical activity, per 1,000 population | 162k | 142k | Green | ↑ | - | 611k | 614k |
| 27) THS/011c: The % of non-principal (C) roads that are in an overall poor condition | 17.6 | TBD | Amber | → | - | TBD | 17.6 |
| 28) Jobs Created | 20 | 8 | Green | - | - | 25 | 41 |
| 30) The number of actual missed bin collections | 53 | 120 | Green | ↓ | - | - | 152 |
| 32) HLS/010c: Average number of days to complete routine void repair | 7.2 | 30 | Green | - | - | 30 | 19.3 |
| 31) PLA/004c: The percentage of householder planning applications determined during the year within 8 weeks | 92 | 85 | Green | - | - | - | - |
| 35) School Modernisation Programme | - | - | Green | - | - | - | - |
| 36) Older Adult Social Care Programme | - | - | Green | - | - | - | - |
| 37) Leisure Project | - | - | Red | - | - | - | - |
| 38) Library Project | - | - | Amber | - | - | | - |
| 39) Adoption and compliance with a timetable for close of accounts and production of Statement of Accounts | Yes | Yes | Green | - | - | Yes | Yes |
| 22) No. of Permanent Exclusions | 0 | 0 | Green | - | - | 0 | 0 |
| 20) Attendance - Primary (%) | - | - | - | - | - | 94.5 | - |
| 21) Attendance - Secondary (%) | - | - | - | - | - | 93.3 | 93.4 |
| 23) No. of days lost to temp exclusion - Primary | - | - | - | - | - | - | - |
| 24) No. of days lost to temp exclusion - Secondary | - | - | - | - | - | - | - |
| 25) KS4 - % 15 year olds achieving L2+ | - | - | - | - | - | 56 | 54.2 |
| 26) KS4 - % 15 year olds achieving L1 | - | - | - | - | - | - | - |
| 29) No of new apprenticeships under 'Prentisiaeth Menai' | - | - | - | - | - | - | - |
| 33) % of repairs (BMU) completed first time | TBD | - | - | - | - | - | - |
| 34) Outcome Agreements | - | - | - | - | - | - | - |

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR SGRIWTINI** |
| **DYDDIAD:** | **1 MEDI 2014** |
| **PWNC:** | **ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB CHWARTER CYNTAF 2014/15 - CYFALAF** |
| **DEILYDD PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD H E JONES** |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | **GARETH ROBERTS** |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | **RICHARD MICKLEWRIGHT (EST. 2601)** |

**Rheswm am yr adroddiad:**

Fel y gall y Pwyllgor Gwaith fod yn gyfrifol am fonitro cyllidebau ar lefel gorfforaethol.

**A. Rhagarweiniad / Cefndir / Materion**

**1. <u>CEFNDIR</u>**

**1.1** Dyma'r adroddiad monitro'r gyllideb cyfalaf am chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol. Yn Atodiad A, fe geir crynodeb o'r gwariant yn erbyn y gyllideb hyd at ddiwedd mis Mehefin.

**2. <u>CYNNYDD</u>**

**2.1** Roedd y gwariant hyd ddiwedd mis Mehefin yn £1.3m ar gynlluniau cyffredinol, sy'n cyfateb i 5.9% o'r gyllideb gyfan. Mae hyn y tu ôl i'r un cyfnod y llynedd (£2.2m, 13%). Y rheswm am hyn yw bod rhai o'r prosiectau ar gyfnod cynnar iawn, fel y Rhaglen Ymestyn Cyfalaf Dechrau'n Deg, lle mai dim ond gwaith cais cynllunio a gwaith ecolegol sydd wedi dechrau a bydd cynlluniau eraill yn treulio'r rhan fwyaf o'u cyllideb ar gyfnod diweddarach yn y flwyddyn, fel adnewyddu mewn ysgolion fydd, yn bennaf, yn cael ei wneud dros wyliau'r haf. Yn ystod y chwarter cyntaf, mae gwaith wedi mynd ymlaen ar nifer o gynlluniau yn cynnwys y Safleoedd ac Eiddo Isadeiledd Strategol, lle mae 25% o'r gyllideb wedi ei wario a'r Adfywio Ffisegol (3 Tref), lle mae 37% o'r gyllideb wedi ei gwario. Yn ychwanegol at hyn, gwariwyd llai ar gynlluniau yn ystod y chwarter hwn o gymharu â'r un cyfnod y llynedd, fel Rheoli Gwastraff: Safleoedd Mwynderau Sifig, lle gwariwyd £0.2m y flwyddyn ddiwethaf o'i gymharu â dim gwariant y flwyddyn hon. Yn ogystal, bu rhai cynlluniau newydd a gyllidir gyda grant ar gychwyn eleni, gan gynnwys y Gronfa Gofal Canolraddol o fewn Gofal Cymdeithasol Oedolion. Effaith hyn yn gyffredinol oedd lefelau gweithgaredd is a mwy o gynnydd gyda rhaglen o gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

**2.2** Y gwariant hyd ddiwedd mis Mehefin ar gynlluniau tai oedd £1.3m, sef 13% o gyllideb gyfan dai. Mae hyn yn lefel ychydig yn uwch na llynedd (£0.4m, 6%), yn bennaf oherwydd y gwaith ar y Contract Cynnal a Chadw Tai Cyngor oedd yn mynd ymlaen yn dda, gyda gwariant o £0.9m y chwarter hwn o gymharu â gwariant o £0.3m yn yr un cyfnod y llynedd.

**2.3** Mae'r cyfanswm gwariant hyd at ddiwedd Mehefin yn 12% o'r gyllideb. Mae hyn oherwydd bod gwariant ar nifer o'r cynlluniau mawr, gan gynnwys y Fenter Benthyca Llywodraeth Leol Priffyrdd, yn digwydd tuag at ddiwedd y flwyddyn yn bennaf.

**2.4** Mae'r adroddiadau hyn yn canolbwyntio fel arfer ar gynlluniau a gyllidir gydag arian grant a phrosiectau eraill lle gall fod risg sylweddol os bydd y prosiectau'n llithro neu os bydd gorwariant. Fel yr adroddwyd eisoes, mae nifer y prosiectau a gyllidir gan grantiau wedi lleihau yn dilyn toriadau yng nghyllidebau Llywodraeth Cymru, er bod rhai prosiectau mawr a gyllidir gyda Grantiau Ewropeaidd ar y gweill (sef cynllun y Tair Tref, prosiect Safleoedd ac Adeiladau Llangefni a Mona ac Amgylchedd Arfordirol Môn). Hefyd, mae 8 o brosiectau a gyllidir gan Lywodraeth Cymru ar y gweill (un yn parhau o 2013/14), y mwyaf sylweddol yw'r cynllun Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.

**2.4.1** Y tri phrosiect mwyaf amlwg o ran risg yw:-

**2.4.1.1** Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi sicrhau cyllid o £7,490k gan Raglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid Llywodraeth Cymru dros y tair blynedd ariannol nesaf. Y Gyllideb Gyfalaf a gymeradwywyd fis Mehefin gan Lywodraeth Cymru am 2014/15 yw £2,050k. Mae'r Cyllideb hwn o £2,050k wedi ei rannu dros 7 o brosiectau, Galluogi Cartrefi Newydd (£485k), Cartrefi mewn Trefi (£225k), Canolfan Tref Llawn Addewid (£385k), Hyb Neuadd Marchnad (£10k), Swyddi a Busnes (£190k), Cymuned Fywiog (£635k) a Darparu Cynaliadwy (£120k). Mae'r gymeradwyaeth hwyr o gyllid (Mehefin 10) a'r gofynion cysylltiol gan Llywodraeth Cymru (e.e. amod taliadau cyfreithiol 4 Awst) yn golygu na fu unrhyw wariant cyfalaf erbyn diwedd y chwarter cyntaf, a bod yna risg sylweddol o danwariant. Mae trefniadau yn awr yn cael eu gwneud i fodloni amodau grant Llywodraeth Cymru ac i symud cynlluniau gwariant cyfalaf ymarferol yn ei flaen yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol i leihau'r risg o danwario.

**2.4.1.2** Mae'r rhaglen o welliannau i fân-ddaliadau (yn cael ei gyllido o'r derbyniadau cyfalaf a neilltuwyd o werthu mân-ddaliadau) yn ei bumed flwyddyn a blwyddyn olaf y rhaglen gyfredol. Mae'r rhaglen o osodiadau trydanol yn mynd ymlaen, mae tendrau wedi eu derbyn ar gyfer adnewyddu dau dŷ ac maent yn cael eu gwerthuso. Byddwn yn tendro ar gyfer adnewyddu 4 tŷ arall yn y chwarter nesaf. Mae rhaglen o gynhyrchu incwm wedi bod yn destun adolygiad pellach er mwyn adlewyrchu cyflyrau gwan y farchnad, sydd wedi golygu bod amseru derbyniadau cyfalaf wedi disgyn tu ôl i wariant dros y 3 blynedd diwethaf. Mae'r rhaglen yn parhau i redeg o flaen derbyniadau cyfalaf, gyda diffyg o £2,051k yn cael ei ddwyn ymlaen o 2013/14 ac i hwn rhaid ychwanegu unrhyw wariant yn 2014/15. Rhagwelir bydd gwerthiannau mawr yn digwydd yn yr hydref er nad oes unrhyw sicrwydd y bydd y rhain yn ddigon i wneud iawn am y diffyg a amlinellwyd uchod.

**2.4.1.3** Y cynllun olaf i'w nodi yw prosiect Pier Biwmares (rhan o'r Cynllun Amgylchedd Arfordirol). Er bod y gwaith adnewyddu wedi cael ei gwblhau, nodwyd eisoes fod trafodaethau'n parhau ynghylch gwerth gwirioneddol y gwaith a wnaed. Nid yw'r ffi gadw wedi ei thalu ac nid yw'r cyfrif terfynol wedi ei gyhoeddi. Nid oes disgwyl i'r mater gael ei ddatrys, felly, tan y flwyddyn ariannol nesaf.

**2.4.1.4** Mae nifer o brosiectau a chynlluniau a aliniwyd i drawsnewid gwasanaeth a thrawsnewid corfforaethol eisoes ar droed neu'n cael eu disgwyl dros y tymor byr i ganolig; mae hyn yn cynnwys y gymeradwyaeth ddiweddar, mewn egwyddor, o'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif, Band A, a phrosiectau yn ymwneud â gofal cymdeithasol i oedolion hŷn. Bydd y prosiectau a'r cynlluniau hyn yn gofyn am arian cyfalaf sylweddol gan yr Awdurdod hwn a bydd angen i'r cynlluniau rheoli ased statudol corfforaethol fod wedi ei halinio'n agos i ddarparu'r derbyniadau cyfalaf sydd eu hangen er mwyn lleihau'r angen i fenthyca. Bydd unrhyw fenthyca a wneir yn cynyddu'r pwysau ar y cyllidebau yn y dyfodol ac yn cynyddu'r risgiau cyffredinol sy'n gysylltiedig â dyled.

**B – Ystyriaethau**

## 3. ADNODDAU

### 3.1 Grantiau Cyfalaf

Mae bidiau'r Cyngor eisoes wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer y Rhaglen Cydgyfeiriant gyfredol, ac mae'r cyllid cyfatebol wedi cael ei glustnodi ar gyfer y cynlluniau sydd wedi eu cymeradwyo.

### 3.2 Derbyniadau Cyfalaf

**3.2.1** Mae'r derbyniadau cyfalaf am y flwyddyn hon hyd yn hyn fel a ganlyn :-

| | Derbyniwyd hyd at 30 Mehefin 2014 £'000 |
|---|---|
| Tai – CRT | |
| Gwerthiannau Hawl i Brynu | 0 |
| Gwerthu Tir | 0 |
| Tai Sector Preifat | |
| Gwerthu Plotiau | 0 |
| Taliadau a ad-dalwyd | 0 |
| Grantiau a ad-dalwyd | 5 |
| Cronfa'r Cyngor : | |
| Mân-ddaliadau | 170 |
| Cyffredinol | 69 |
| Diwydiannol | 44 |
| Ysgolion | 0 |
| **Cyfanswm** | **288** |

**3.2.2** Mae'r holl dderbyniadau yn dangos lefelau is na ragamcenir, er mae nifer o brosiectau eto i ddod yn hollol weithredol. Mae rhagamcanu lefel ac amseriad y derbyniadauon yn parhau i fod yn broblem barhaol er bod yr hinsawdd economaidd yn gwella yn genedlaethol.

## 4. NEWIDIADAU A NEWIDIADAU POSIB ELENI

**4.1** Mae'r arian wrth gefn sydd heb ei ddyrannu fel a ganlyn:-

| | Dygwyd Ymlaen 2013/14 £000 | Cyllideb 2014/15 £'000 | Dyrannwyd 2014/15 £'000 | Addasiadau 2014/15 | Cyfanswm swm ar gael 2014/15 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyllid Cyfatebol/ Adfywio | **200** | Dim | Dim | Dim | 200 |
| Cronfa wrth gefn Hamdden - Gwelliannau | **196** | Dim | Dim | Dim | 196 |
| Cronfa wrth gefn | **2,100** | Dim | Dim | Dim | 2,100 |
| Rhesymoli Asedau | **340** | Dim | Dim | Dim | 340 |
| Heb ei dyrannu | **460** | Dim | Dim | Dim | 460 |
| Astudiaethau Dichonoldeb | **Dim** | 850 | Dim | Dim | 850 |
| Gwario i Arbed Benthyca digefnogaeth* | **Dim** | 1,000 | Dim | Dim | 1,000 |

*Nid yw'r elfen honno o'r arian wrth gefn ar gyfer benthyca di-gefnogaeth yn cael ei gario i'r flwyddyn newydd

**4.1.1** Os daw'n amlwg na fydd modd sicrhau'r derbyniadau cyfalaf y cyllidebwyd ar eu cyfer, neu os yw pwysau eraill yn codi ar y gyllideb, efallai y bydd rhaid defnyddio llai o'r arian wrth gefn sydd heb ei ddyrannu. Bydd angen cynnal yr adolygiad hwn pan ystyrir unrhyw ymrwymiadau i'r dyfodol o'r cronfeydd wrth gefn hyn. Un enghraifft o bwys yw Dechrau'n Deg y bydd angen adnoddau ychwanegol ar ei gyfer efallai ac y byddai rhaid, felly, ei gymryd i ystyriaeth pan fydd sylw'n cael ei roi i ddyraniadau pellach o'r cronfeydd wrth gefn hyn.

## 5. EDRYCH YMLAEN

**5.1** Yr eitemau y mae'n werth sôn amdanynt ar hyn o bryd yw:-

**5.2** Ysgolion y 21ain Ganrif: Mae dwy elfen i'r rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif y dylid ei nodi. Y rhain yw'r Achos Strategol Amlinellol (ASA) ar gyfer pob cynllun o fewn Bandiau A - D a'r Rhaglen Strategol Amlinellol (RhSA) ar gyfer y rhaglen yn ei chyfanrwydd.

**5.2.1** Mae'r ASA ar gyfer Ysgol y Llannau wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a bydd Cynllun Busnes Amlinellol/Llawn wedi'u cyfuno yn cael ei baratoi i'w gyflwyno ym mis Medi. Mae Llywodraeth Cymru yn edrych am gostau cyllideb prosiect wedi ei gwtogi £5.08m i'w ostwng ymhellach o fewn y cyflwyniadau ym mis Medi.

**5.2.2** Mae'r ASA ar gyfer yr Ysgol Gynradd newydd yng Nghaergybi yn cael ei baratoi ar hyn o bryd i'w gyflwyno erbyn diwedd mis Awst. Bydd y prosiect hwn yn cael ei gaffael fel prosiect Dylunio ac Adeiladu drwy'r Fframwaith Ysgolion 21ain Ganrif. Cynhaliwyd cyfarfod briffio gyda'r contractwyr yr wythnos diwethaf. Mae tendrau Cam 1 yn cael eu gwahodd ddiwedd mis Medi.

**5.3** Adroddwyd eisoes fod Partneriaethau Lleol wedi bod yn gweithio gyda swyddogion i wneud gwaith gwerthuso opsiynau mewn perthynas â rhaglen rhesymoli asedau'r Cyngor. Cafodd adroddiad ar 'Gwerthuso Opsiynau ar gyfer Datrysiadau Darparu Posib' ei gyflwyno'n gynharach yn 2013/14. Ers hynny, parhawyd i ddefnyddio Partneriaethau Lleol i wneud gwaith pellach er mwyn datblygu cynigion sydd wedi eu halinio gyda thrawsnewid gwasanaethau allweddol a'r gofynion cysylltiedig o ran asedau. Bydd y gwasanaethau perthnasol yn cyflwyno eu cynlluniau trawsnewid yn y man.

## C – Goblygiadau ac Effaith

| | | |
|---|---|---|
| 1 | **Cyllid / Adran 151** | |
| 2 | **Swyddog Cyfreithiol / Monitro** | |
| 3 | **Adnoddau Dynol** | |
| 4 | **Gwasanaethau Eiddo**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 5 | **Technoleg Cyfathrebu a Gwybodaeth** | |
| 6 | **Cydraddoldeb**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 7 | **Gwrthdlodi a Chymdeithasol**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 8 | **Cyfathrebu**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 9 | **Ymgynghori**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 10 | **Economaidd** | |
| 11 | **Amgylcheddol**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 12 | **Trosedd ac Anhrefn**<br>(Gweler y nodiadau – dogfen ar wahân) | |
| 13 | **Cytundebau Canlyniadau** | |

## CH – Crynodeb

Roedd y gwariant ar gynlluniau cyffredinol hyd at ddiwedd Mehefin yn £1.3m (5.9% o'r gyllideb gyfan). Gwariwyd £1.3m ar gynlluniau tai (13% o gyllideb gyfan dai) hyd at fis Mehefin. Roedd y gwariant cyffredinol yn 12% o'r gyllideb gyfan, gan fod gwariant ar nifer o'r cynlluniau mwy yn digwydd tuag at ddiwedd y flwyddyn.

Mae yna gynlluniau y mae risgiau ynghlwm wrthynt o ran mynd dros y gyllideb neu sy'n ymwneud â derbyn cyllid grant. Y cynlluniau o bwys y dylid eu nodi yw Grant Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, gwaith adnewyddu Pier Biwmares a rhaglen wella'r mân-ddaliadau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau fod unrhyw risgiau sy'n codi o'r holl gynlluniau yn cael eu nodi a'u lleihau.

Nid yw SCEC wedi cymeradwyo yn ffurfiol y cronfeydd ychwanegol i adeiladu'r tri uned busnes "Ardderchog" BREEAM ychwanegol ar safle Pen yr Orsedd, ond rhagwelir y byddant yn gwneud hynny yn y dyfodol agos. Mae yna hefyd broses yn parhau i ddymchwel Hyfforddiant Môn a ddylai gael ei gyllido o'r cynllun SCEC hwn, heb fod angen unrhyw gyllid ychwanegol, er bod hyn eto i'w gymeradwyo gan SCEC.

Mae'r Awdurdod wedi sicrhau £377k o gyllid Grant Cyfalaf gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Gronfa Gofal Canolraddol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Pwrpas y cyllid yw ein helpu ni i adeiladu ar weithio effeithiol ar draws iechyd, gofal cymdeithasol a thai i wella'r broses o gynllunio a darparu gwasanaethau mwy integredig, ac i gefnogi pobl i gynnal eu hannibyniaeth a pharhau yn eu cartrefi eu hunain.

Cyfanswm derbyniadau cyfalaf Cronfa'r Cyngor i ddiwedd Mehefin oedd £0.1m (ac eithrio derbyniadau a oedd wedi eu neilltuo'n benodol i'r mân-ddaliadau o £0.2m) a disgwylir iddynt gyflawni'r gyllideb erbyn diwedd y flwyddyn. Mae'r Prosiect Gwella Manddaliadau mewn dyled ar hyn o bryd, ond disgwylir cael derbyniadau cyfalaf yn nes ymlaen yn y flwyddyn. Mae'r derbyniadau CRT yn fyr o'r gyllideb, a hynny'n bennaf oherwydd methiant i gyflawni lefel o dderbyniadau a gyllidebwyd yn sgil gwerthu tiroedd.

Ni ddyrannwyd unrhyw arian o'r cronfeydd wrth gefn sydd heb eu dyrannu yn ystod y chwarter. Os daw'n amlwg na lwyddir i ddenu'r derbyniadau cyfalaf a gyllidebwyd neu os bydd pwysau eraill ar y gyllideb, efallai y bydd angen gwneud llai o ddefnydd o'r cronfeydd wrth gefn sydd heb eu dyrannu.

Gan edrych ymlaen, mae yna ddau gynllun o bwys y dylid eu nodi: sef rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif a'r rhaglen rhesymoli asedau. Mae'r ASA ar gyfer Ysgol y Llannau wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru a bydd Cynllun Busnes Amlunellol/Llawn cyfunol yn cael ei baratoi i'w gyflwyno ym mis Medi. Mae'r ASA ar gyfer yr Ysgol Gynradd newydd yng Nghaergybi yn cael ei baratoi ar hyn o bryd ar gyfer ei gyflwyno erbyn diwedd mis Awst.

O ran y rhaglen rhesymoli asedau, mae Partneriaethau Lleol yn parhau i gynorthwyo gwasanaethau a bydd y gwasanaethau perthnasol yn cyflwyno eu cynlluniau trawsnewid yn y man.

**D – Argymelliadau**

**(a)** Nodi cynnydd o ran gwariant a derbyniadau yn erbyn y gyllideb gyfalaf.

**Enw awdur yr adroddiad:** Gareth Roberts
**Swydd:** Cyfrifydd (Cyfalaf a Rheoli'r Trysorlys)
**Dyddiad:** 20 Awst 2014

**Atodiadau:**

Atodiad A: Cyllideb Cyfalaf 2014/15 - Crynodeb : Mehefin 2014
Atodiad B : Rhaglen Gyfalaf diwygiedig ar gyfer 2014/15 gyda manylder Gwariant Cyfalaf.

**Papurau Cefndirol:**

Dim

**RICHARD MICKLEWRIGHT**
**PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)**
**& SWYDDOG ADRAN 151** **22 AWST 2014**

## ATODIAD A

## Cyllideb Cyfalaf 2014/15 : Mehefin 2014

| Prosiectau | Cyllideb 2014/15 £'000 | Llithriad 2013/14 £'000 | Cyfanswm £'000 | Gwariant | | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | £'000 | % | |
| **Tai** | **6,634** | **3,320** | **9,954** | **1,322** | **13** | |
| Cyfrif Refeniw Tai (CRT) | 5,734 | 1,779 | 7,513 | 885 | 12 | Aeth gwaith yn ei flaen yn Ch.1 ar gynlluniau a gariwyd trosodd o 2013/14. Hefyd, dyrannwyd 3 contract newydd gyda gwerth o £2.9m yn Ch.1 a disgwylir iddynt ddod i ben erbyn diwedd y flwyddyn. |
| Preifat : Grantiau a Benthyciadau | 900 | 1,148 | 2,048 | 371 | 18 | Disgwylir i'r cynlluniau grantiau a benthyciadau fod wedi eu gwario erbyn diwedd y flwyddyn. |
| Tai Fforddiadwy | 0 | 393 | 393 | 66 | 17 | Mae blaenoriaethau yn parhau i gael eu hystyried gyda'r cyllid y bydd ei angen ar gyfer y cynllun achub morgais/prynu cartref, a fydd yn denu cyfraniad gan Gymdeithas Tai Eryri. |
| **Addysg** | **1,720** | **1,049** | **2,769** | **43** | **2** | |
| Arian wrth Gefn Ysgolion yr 21ain Ganrif | 0 | 850 | 850 | 0 | 0 | |
| Rhaglen Ehangu Cyfalaf Dechrau'n Deg | 720 | 0 | 720 | 4 | 1 | Bu'r unig wariant yn ystod y chwarter cyntaf ar gais cynllunio ac ecoleg. Bydd gwaith yn dechrau ar y safle yn yr Hydref, ac y mae costau'r prosiect yn awr yn cael eu gwerthuso a hynny oherwydd risg o or-wariant sylweddol. |
| Addysg : Arall | 1,000 | 199 | 1,199 | 39 | 3 | Mae hwn yn ymwneud â chynlluniau gwaith bychan mewn gwahanol ysgolion. Mae'r cyllidebau wedi eu hymrwymo'n llawn ond mae gwariant yn Ch.1 yn isel oherwydd y bydd llawer o'r gwaith yn cael ei gwblhau dros fisoedd yr haf. |
| **Adfywio** | **4,491** | **2,106** | **6,597** | **1,094** | **17** | |
| Datblygu Economaidd: Seilwaith Strategol - Safleoedd ac Eiddo | 1,666 | 215 | 1,881 | 468 | 25 | Mae'r gwaith o adeiladu'r 4 uned ym Mhen yr Orsedd yn dod tua'i ddiwedd erbyn hyn a disgwylir ei roi drosodd ym mis Medi. Efallai y bydd bid i sicrhau cyllid SCEC ychwanegol i adeiladu tair uned arall gael ei gymeradwyo yn y dyfodol agos. |
| Datblygu Economaidd: Arall | 650 | 721 | 1,371 | 110 | 8 | Mae hwn yn ymwneud â chyllid cyfatebol Cynllun Cyfenter, Grantiau Cronfa Fuddsoddi Leol, Cynlluniau Ehangu Canolfan Fusnes Ynys Môn a Phrosiect Amgylchedd Arfordirol Ynys Môn. |
| Eiddo: Rhaglen Gwella'r Mân-ddaliadau | 250 | 0 | 250 | 20 | 8 | Mae rhaglen o welliannau i fân-ddaliadau (yn cael ei ariannu o'r derbyniadau cyfalaf a neilltuwyd o werthiant y mân-ddaliadau) yn ei bumed flwyddyn. Mae'r rhaglen o wneud gosodiadau trydanol yn symud ymlaen, mae tendrau wedi eu derbyn ar gyfer adnewyddu dau dŷ ac maent yn cael eu gwerthuso. Byddir yn tendro ar gyfer adnewyddu 4 tŷ arall yn y chwarter nesaf. Bydd rhaglen o gynhyrchu incwm o dan adolygiad pellach er mwyn adlewyrchu cyflwr isel y farchnad, gyda hynny wedi golygu bod amseru derbyniadau cyfalaf wedi disgyn y tu ôl i'r gwariant dros y 3 blynedd diwethaf. Mae rhaglen yn parhau i redeg o flaen unrhyw dderbyniadau cyfalaf gyda diffyg o £2,051k yn cael ei ddwyn ymlaen o 2013/14. Rhagwelir y bydd gwerthiannau mawr yn digwydd yn yr hydref a bydd hynny'n gweld y rhaglen yn dychwelyd i sefyllfa o gronfa gytbwys. Bydd y rhaglen wariant wedyn yn cael ei adolygu ymhellach yng ngoleuni'r datblygiadau fydd yn mynd ymlaen o ran derbyniadau cyfalaf. |

| Prosiectau | Cyllideb 2014/15 £'000 | Llithriad 2013/14 £'000 | Cyfanswm £'000 | Gwariant £'000 | % | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rheoli Gwastraff : Safle Mwynderau Penhesgyn | 125 | 0 | 125 | 0 | 0 | Y cynllun gwreiddiol i'r cyllid oedd ar gyfer safle Penhesgyn. Bernir yn awr nad yw'r safle'n addas, a bydd yr arian felly'n cael ei wario ar Gompownd Storio Cynwysyddion Gwastraff ym Mona, fyddai'n dod yn lle'r ardal a ddefnyddir yn awr ym Mryn Sunsur. |
| Adfywio Ffisegol (3 Tref) | 0 | 1,170 | 1,170 | 432 | 37 | Bydd y gyllideb yn cael ei gwario ar brosiectau ac eiddo o fewn Menter Treftadaeth Treflun Caergybi. |
| Priffyrdd: Menter Benthyca Llywodraeth Leol 2014/15 | 1,800 | 0 | 1,800 | 64 | 4 | Disgwylir i'r gwaith ennill momentwm yn ystod y flwyddyn, a hynny tuag at ail hanner y flwyddyn. Disgwylir y bydd yr holl waith a raglennwyd wedi ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn. |
| **Arall** | **1,570** | **1,311** | **2,881** | **178** | **6** | |
| Priffyrdd: Arall | 650 | 378 | 1,028 | 153 | 15 | Mae'r gyllideb hon yn ymwneud â cherbydau, strwythurau, ffyrdd cerbydau, meysydd parcio a goleuadau stryd sy'n mynd rhagddo fel y disgwylir. |
| Eiddo: Arall | 770 | 453 | 1,223 | 25 | 2 | Mae hwn yn ymwneud â mynediad i'r anabl a gwaith rheoli risg adeiladau, ac ehangu 2 fynwent yn Llanddona a Llanbedrgoch |
| TGCh Strategaeth: | 150 | 480 | 630 | 0 | 0 | Dim gwariant ar TGCh : Strategaeth yn ystod y chwarter cyntaf. |
| **Cyfanswm** | **14,415** | **7,786** | **22,201** | **2,637** | **12** | |

| Llithro 2013/14 | Cyllideb 2014/15 | | | **ATODIAD B** |
|---|---|---|---|---|
| **£'000** | **£'000** | **GWASANAETH** | **Manylder y gwariant Cyfalaf a gynllyniwyd** | **Swm (£'000)** |
| | | **Addysg** | | |
| 199 | **1,000** | Ysgolion - Adnewyddu | Ysgol Syr Thomas Jones - Adnewyddu Toiled | 100 |
| | | | Ysgol Uwchradd Bodedern - Boiler Newydd a Gwaith Toi | 719 |
| | | | Ysgol Gyfun Llangefni - Gwaith ar Faes Parcio'r Ysgol, Ail-weirio, Drysau a System Larwm Tân | 100 |
| | | | Ysgol David Hughes - Risg Tân | 50 |
| | | | Ysgol Uwchradd Caergybi - Bloc Gwyddoniaeth, To, Boiler | 200 |
| | | | Ysgol Gynradd Y Borth - Toiledau | 30 |
| | **720** | Rhaglen Ehangu Cyfalaf Dechrau'n Deg | Newidiadau i Adeilad Dechrau'n Deg, Caergybi | 720 |
| 850 | | Arian Wrth Gefn Ysgolion y 21ain Ganrif | Costau Cyfalaf a ffioedd Dylunio Ysgol y Llannau. Cynllunio ar gyfer Ysgol newydd yng Nghaergybi | Ychydig iawn |
| | | | Dim rhagor o wybodaeth am yr arian wrth gefn | 850 |
| **1,049** | **1,720** | **Is-Gyfanswm** | | **2,769** |
| | | **Cynllunio** | | |
| 1,170 | | Adfywio Ffisegol (3 Tref) | Prosiectau ac Eiddo o fewn Menter Treftadaeth Treflun, Caergybi | 1,170 |
| **1,170** | **0** | **Is-Gyfanswm** | | **1,170** |
| | | **Gwastraff** | | |
| | **125** | Compownd Storio Cynwysyddion Gwastraff - Penhesgyn | Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio yng nghyswllt Compownd Storio Cynhwysydd Gwastraff ym Mona. Byddai'r Compownd Storio yn dod yn lle'r ardal sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ym Mryn Sunsur | 125 |
| **0** | **125** | **Is-Gyfanswm** | | **125** |
| | | **Datblygu Economaidd** | | |
| | | Arian Cyfatebol Cynllun Cyfenter | Mae hwn yn cael ei Redeg gan Menter Mon, ac yn gyfraniad y Cyngor yn rhoi grantiau allan i fentrau economaidd cymunedol trydydd sector. | 300 |
| | **130** | Grantiau Cronfa Buddsoddiad Lleol | Mae'r Cyngor yn rhoi grantiau allan i fusnesau lleol | 130 |
| | **25** | Cynllluniau Ehangu Canolfan Fusnes Ynys Môn | Cynllluniau yn 2007 i ymestyn y ganolfan, diweddaru ac adolygu'r cynlluniau hyn i roi cyflwyniad am gais cynllunio i ymestyn y Ganolfan Fusnes | 25 |
| 215 | **1,666** | Isadeiledd Strategol ym Môn - Safleoedd ac Eiddo | 7 uned newydd ar safle Penyrorsedd a dymchwel adeilad Hyfforddiant Môn | 1,881 |
| | **495** | Prosiect Amgylchedd Arfordirol Môn | Porth Dafarch, Ynys Gybi | 125 |
| | | | Pontŵn Cychod Hwylio, Porthaethwy | 57 |
| | | | Ffordd y Traeth, Rhosneigr | 107 |
| | | | Llithrfa, Treaddur | 57 |
| | | | Ardal Golygfa'r Harbwr, Cemaes | 57 |
| | | | Mynediad i'r Holl Draeth, Cemaes | 257 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 721 | | Arall | Dim gwybodaeth ar gael | 256 |
| **936** | **2,316** | **Is-Gyfanswm** | | **3,252** |
| | | **Priffyrdd a Chludiant** | | |
| | **200** | Cerbydlonydd | Pengorffwysfa i Llaneilian | 72 |
| | | | Pentref Tregele | 30 |
| | | | Arian wrth gefn: Cyffredinol | 26 |
| | | | Ffordd Ravenspoint, Trearddur | 72 |
| | **50** | Meysydd Parcio | Dim mwy o wybodaeth ar gael | 50 |
| | **180** | Strwythurau | Aberffraw | 90 |
| | | | Llanfairynghornwy | 90 |
| | **20** | Goleuadau Stryd | Dim cynllun - edrych ar oed lampiau a newid lampiau llai effeithiol | 20 |
| | **50** | Lonydd Stadau a Llwybrau | Dim mwy o wybodaeth ar gael | 50 |
| | **1,800** | Menter Fenthyca Llwyodraeth Leol | Ailwynebu'r Gerbydlon | 1,490 |
| | | | Gwelliannau Draenio | 170 |
| | | | Ail Adeiladu Llwybr | 140 |
| | **150** | Cerbydau | Dim mwy o wybodaeth ar gael | 150 |
| 378 | | Arall | Dim mwy o wybodaeth ar gael ar lithriad | 378 |
| **378** | **2,450** | **Is-Gyfanswm** | | **2,828** |
| | | **Eiddo** | | |
| | **200** | Mynediad i'r Anabl i Adeiladau Cyhoeddus | Ysgol Syr Thomas Jones - Mynediad Anabl | 5 |
| | | | Ysgol Gyfun, Llangefni - Mynediad Anabl | 40 |
| | | | Ysgol Uwchradd Caergybi - Gwaith Anabl | 30 |
| | | | Ysgol Gynradd Fali - Gwaith Anabl | 10 |
| | | | Ysgol Esceifiog - Gwaith Anabl | 30 |
| | | | Ysgol Llanfechell - Gwaith Anabl | 15 |
| | | | Ysgolion Uwchradd DDA heb ei ddyrannu | 50 |
| | | | Arian wrth gefn : Cyffredinol | 20 |
| | **450** | Rheoli Risg Adeiladau a Chynnal a Chadw Strwythurol | Ysgiolion Cynradd - Risg Legionella heb ei Ddyrannu | 50 |
| | | | Ysgolion Cynradd - LPG heb ei Ddyrannu | 30 |
| | | | Ysgolion Cynradd - Ceginau heb ei Ddyrannu | 50 |
| | | | Amrywiol - Cydymffurfio ag ACOP Legionella | 50 |
| | | | Last Trading Post - Ffenestr Newydd | 3 |
| | | | Swyddfa'r Post Brynsiencyn - To Fflat | 3 |
| | | | Depo'r Cyngor - Symud Asbestos | 10 |
| | | | Uned 2 Bodedern - Newid ffenestr yn ddrws | 2.5 |
| | | | Hen Ysgol Genedlaethol - Toi | 15 |
| | | | Hen Ysgol Genedlaethol - Wal Gadw | 5 |
| | | | Mynediad Foel Fawr - Trac Mynediad | 4 |
| | | | Holl eiddo - Risg Tân | 17 |
| | | | Holl eiddo - Boileri | 100 |
| | | | Holl eiddo - Rhaglen Diogelwch LPG | 50 |
| | | | Arian Wrth Gefn: Cyffredinol | 60.5 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **120** | Estyniad i Fynwent Llanddona | Estyniad i Fynwent Llanddona | 120 |
| | | Estyniad i Fynwent Llanbedrgoch | Estyniad i Fynwent Llanbedrgoch | 110 |
| | **250** | Manddaliadau (Rhaglen a Glustnodwyd) | Dim Rhaglen ar hyn o bryd | 250 |
| 453 | | Arall | Dim mwy o wybodaeth ar gael ar lithriad | 343 |
| **453** | **1,020** | **Is-Gyfanswm** | | **1,473** |
| | | **Corfforaethol** | | |
| 480 | **150** | Strategaeth TGCh | Dim Rhaglen Eto | 630 |
| **480** | **150** | **Is-Gyfanswm** | | **630** |
| **4,466** | **7,781** | **Cyfanswm - Cyffredinol** | | **12,247** |
| | | **Tai** | | |
| | | **Tai Sector Cyhoeddus:** | | |
| 1,779 | **5,734** | Rhaglen Gyfalaf Cyfrif Refeniw Tai | Cynnal a Chadw a gynlluniwyd ar Dai Cyngor | 5,350 |
| | | | Gwaith Cynllunedig SATC 2014/15 - Arian Wrth Gefn | 400 |
| | | | Newid Tenantiaeth SATC 2014/15 – Arian Wrth Gefn Heb ei ddyrannu | 350 |
| | | | Gwaith Amgylcheddol 2014-15 – Arian Wrth Gefn Heb ei ddyrannu | 250 |
| | | | Adolygiad Tai Cysgodol – Arian Wrth Gefn Heb ei ddyrannu | 735 |
| | | Arall | Dim gwybodaeth ar lithriad | 428 |
| | | **Cynlluniau Tai Sector Preifat:** | | |
| | **900** | Grantiau a Chynlluniau Benthyca Tai Sector Preifat | Grant Effeithlonrwydd Ynni Rhaglen 14-15 | 100 |
| | | | Grantiau Prynwyr Tro Cyntaf Rhaglen 14-15 | 50 |
| | | | Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl Rhaglen 14-15 | 750 |
| 1,148 | | Arall | Dim gwybodaeth ar lithriad | 1,148 |
| 393 | | Cynlluniau Tai Fforddiadwy | Dim gwybodaeth ar lithriad | 393 |
| **3,320** | **6,634** | **Cyfanswm Tai** | | **9,954** |
| **7,786** | **14,415** | **CYFANSWM CYLLIDEB** | | **22,201** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Sgriwtini** |
| **Dyddiad:** | **1 Medi 2014** |
| **Pwnc:** | **Adroddiad Monitro'r Cyllideb Chwarter 1** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Cynghorydd H E Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Richard Micklewright** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Bethan Hughes Owen**<br>**01248 752663**<br>**Bethanhughesowen@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **d/b** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r sefyllfa ar wariant refeniw'r Cyngor am y chwarter cyntaf o 2014/15 ynghyd â rhagamcan o'r sefyllfa am y flwyddyn gyfan.

Argymhellir, i nodi a monitro:-

**i)** y sefyllfa a nodir yng nghyswllt y perfformiad ariannol hyd yma;
**ii)** y diffyg a ragamcenir ar ddiwedd y flwyddyn;
**iii)** y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

d/b

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Ym mis Chwefror 2014 fe osododd y Cyngor gyllideb net gyda gwariant gwasanaethau net o £126m.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi perfformiad ariannol Gwasanaethau'r Cyngor am y tri mis cyntaf dros y flwyddyn ariannol a'r sefyllfa a ragamcenir am y flwyddyn gyfan, gan nodi'r sefyllfa gyffredinol a ffynonellau'r prif wahaniaethau.

Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragamcenir yw £652k o orwariant, ac mae eglurhad am unrhyw wahaniaethau arwyddocaol wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Roedd cyllideb 2014/15 yn cynnwys arbedion oedd eu hangen o £6.26m. Mae'r rhain wedi eu hymgorffori i mewn yng nghyllidebau'r Gwasanaethau unigol ac mae cyflawni neu fethiant i gyflawni'r rhain yn cael ei adlewyrchu yn y tan/gôrwariant net a ddangosir.

Gyda'i gilydd mae'r rhain yn cyflwyno'r sefyllfa gyffredinol gyda rheoli Cronfa'r Cyngor am y flwyddyn hyd yn hyn.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

**1. <u>Balans Cyffredinol - Sefyllfa Gychwynnol - Cyfraniad a Gynlluniwyd yn 2014/15</u>**

Fel yr adroddwyd i'r Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 9$^{fed}$ Mehefin 2014, roedd y sefyllfa alldro dros dro am 2013/14 yn sylweddol well na'r disgwyl; felly roedd y balans cyffredinol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol gyfredol yn sefyll ar ychydig dros £6m. (Mae'r ffigwr hwn yn parhau i fod yn un dros dro hyd nes y caiff y Datganiad Cyfrifon 2013/14 ei gymeradwyo yn nes ymlaen y mis hwn. Nid oes unrhyw amrywiad wedi ei nodi i hwn yn ystod y cynnydd gyda'r archwilio blynyddol hyd yn hyn).

## 2. Chwarter 1 – Perfformiad Ariannol yn ôl Gwasanaeth

Mae manylion am berfformiad ariannol yn ôl gwasanaeth am y tri mis cyntaf o'r flwyddyn, a'r sefyllfa alldro a ragamcenir ar gyfer pob un i'w weld yn Atodiad A. Y rhagolwg cyffredinol yw y bydd gorwariant net ar y gwasanaethau o £652k. Mae crynodeb sy'n nodi'r prif wahaniaethau i'w weld isod.

| Crynodeb o Wahaniaethau a Ragamcenir ar 31/03/15 yn seiliedig ar Wybodaeth Ariannol Chwarter 1 | |
|---|---|
| | Tan/Gorwariant £000 |
| Addysg Ganolog | - 35 |
| Gofal Cymdeithasol | - 339 |
| Hamdden a Diwylliant | + 75 |
| Priffyrdd | + 156 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | + 184 |
| Cyllid | + 482 |
| Arall | + 129 |

## 3. Eglurhad o'r Gwahaniaethau Arwyddocaol

**Addysg Ganolog - £35k tanwariant**

Mae'r tanwariant i'w briodoli i nifer o resymau, ac mae'r prif danwariant oherwydd y Capasiti ychwanegol a ddisgwylir yn y ddarpariaeth o hyfforddiant cartref ac Allsirol. Mae'r maes hwn yn dibynnu ar y galw amdano ac y mae'n bosibl y gallai'r tanwariant leihau yn sylweddol erbyn diwedd y flwyddyn.

**Gofal Cymdeithasol - £339k tanwariant**

Mae'r tanwariant a ragamcenir i'w briodoli i'r £363k yn y Gwasanaethau i'r Henoed, ond mae hwn yn faes anwadal ac fe all fod yn destun newidiadau yn y misoedd i ddod. Mae gwaith yn cael ei wneud i wella'r rhagamcanion yn y maes hwn. Ceir tanwariant a ragamcenir ym maes Plant a Phobl Ifanc o £3.8k. Ar hyn o bryd, rydym yn disgwyl y bydd Iechyd Meddwl yn gorwario ond mae hwn yn Wasanaeth sy'n dibynnu ar y galw ac sydd ag ystod o gleientiaid cymhleth a drud. Mae swyddogion ar hyn o bryd yn datblygu cynlluniau i nodi'r arbedion a nodwyd a lleihau unrhyw bwysau ariannol ar y Gwasanaeth. Bydd cynnydd tuag at y rhain yn cael ei fonitro'n agos yn fisol gyda chynnydd yn cael ei adrodd arno yn adroddiad monitro ariannol Chwarter 2.

**Rhagamcan Gorwariant Priffyrdd £156k**

Y rheswm am y gorwariant yw bod yr incwm a gyllidebwyd ar gyfer meysydd parcio, rheoli cynnal a chadw a gwaith stryd heb ei gyflawni. Mae'r rhain, eto, yn gyllidebau sy'n dibynnu ar y galw ac maent yn destun newid yn ystod y flwyddyn ariannol.

**Rhagamcan Gorwariant £184k Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd**

Mae'r gorwariant i'w briodoli yn bennaf i'r ffaith na chafodd incwm a gyllidebwyd ei gyflawni yn Chwarter 1 ond mae'n bosibl y bydd yr incwm hwnnw yn cael ei gyflawni erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

**Rhagamcan Gorwariant £482k Cyllid**

Mae'r gorwariant i'w briodoli i'r adnoddau ychwanegol a gyflogwyd gan y Swyddogaeth Adnoddau.

**Gorwariant £130k Arian Budd-dal**

O Ebrill 2013, daeth y Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor lleol yn lle'r Budd-dal Treth Gyngor. Hyd at Ebrill 2013, roedd y gwaith o adennill Budd-daliadau Dreth Gyngor gan yr Adran Gwaith a Phensiynau yn fwy neu lai yn 100% o'r gwariant ar fudd-daliadau. O Ebrill 2013, fe ddyrannwyd i'r Cyngor grant sefydlog yn seiliedig ar gyfartaledd y llwyth gwaith dros 3 blynedd.

Mae'n bosibl y gallai'r hawliadau budd-dal naill ai gynyddu neu leihau erbyn diwedd y flwyddyn ariannol ac y mae'n anodd i'w ragweld oherwydd y bydd hyn yn dibynnu ar yr amgylchedd cymdeithasol ac economaidd yn y dyfodol, ar ddemograffeg, ar fudo ac ar y rhagolygon cyflogaeth ym Môn, ar hyn o bryd y disgwyliadau presennol yw gorwariant o £130k.

**Gorwariant/Tanwariant Net Arall – £129k**

Mae hwn yn ymwneud â'r ystod o wasanaethau lle nad yw'r gwahaniaeth a ragamcenir am y flwyddyn yn cael ei ddangos fel pennawd yn Atodiad A.

| | DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Atodiad A - |

| FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

**ATODIAD A**

| Cyfadrannau | Ymrwymiadau a Gwirioneddol Ch1 2014 £'000 | Cyllideb a Broffilwyd Ch1 2014 £'000 | Amrywiant Ch1 £'000 | | Rhagamcan Gwariant Alldro £'000 | Cyllideb am y Flwyddyn £'000 | Amrywiant a Ragamcanir am y Flwyddyn £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Addysg Gydol Oes** | | | | | | | |
| Cyllidebau Ysgolion Dirprwyedig | 10,249 | 10,249 | 0 | | 43,559 | 43,559 | 0 |
| Addysg Canolig | 1,564 | 1,593 | -29 | | 7,388 | 7,423 | -35 |
| | **11,813** | **11,842** | **-29** | | **50,947** | **50,982** | **-35** |
| **Cymunedau** | | | 0 | | | | |
| Gofal Cymdeithasol | 7,074 | 7,160 | -86 | | 29,377 | 29,716 | -339 |
| Hamdden a Diwylliant | 710 | 616 | 94 | | 4,373 | 4,298 | 75 |
| Tai | 437 | 471 | -34 | | 1,571 | 1,571 | 0 |
| | **8,221** | **8,247** | **-26** | | **35,321** | **35,585** | **-264** |
| **Datblygu Cynaliadwy** | | | 0 | | | | |
| Datblygu Economaidd | 234 | 255 | -21 | | 1,900 | 1,487 | 413 |
| Morwrol | 71 | -6 | 77 | | 40 | 395 | -355 |
| Fflyd | 90 | -9 | 99 | | -55 | -55 | 0 |
| Priffyrdd | 1,826 | 2,176 | -350 | | 10,076 | 9,920 | 156 |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | 303 | 280 | 23 | | 2,553 | 2,737 | -184 |
| Eiddo | -53 | -18 | -35 | | 452 | 452 | 0 |
| Gwaith y Codir Amdano | 91 | 52 | 39 | | 0 | 0 | 0 |
| Rheolaeth Cyfadrannau | 14 | 14 | 0 | | 57 | 57 | 0 |
| Gwastraff | 1,853 | 1,777 | 76 | | 8,021 | 7,876 | 145 |
| | **4,429** | **4,521** | **-92** | | **23,044** | **22,869** | **175** |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dirprwy Brif Weithredwr** | | | | | | | |
| Corfforaethol – Gwasanaethau Eraill | 403 | 403 | 0 | | 1,689 | 1,490 | 199 |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 196 | 238 | -42 | | 1,896 | 1,896 | 0 |
| Adran y Prif Weithredwr | 322 | 320 | 2 | | 1,736 | 1,592 | 144 |
| Archwilio | 58 | 55 | 3 | | 0 | 0 | 0 |
| Cyllid - dim yn cynnwys Budd-daliadau a roddwyd | 881 | 381 | 500 | | 483 | 1 | 482 |
| Cyllid - Budd-daliadau a roddwyd | 2,380 | 1,915 | 465 | | 6,047 | 5,917 | 130 |
| Refeniw a Budd-daliadau | 272 | 228 | 44 | | 915 | 875 | 40 |
| Adnoddau Dynol | 305 | 170 | 135 | | 20 | 0 | 20 |
| TGCh | 462 | 439 | 23 | | -212 | 0 | -212 |
| Cyfreithiol a Gweinyddol | 312 | 295 | 17 | | 205 | 232 | -27 |
| Polisi | 136 | 131 | 5 | | 64 | 64 | 0 |
| Cyllid Corfforaethol | 3,945 | 3,945 | 0 | | 5,116 | 5,116 | 0 |
| | 9,672 | 8,520 | 1,152 | | 17,959 | 17,183 | 776 |
| Cyfanswm | 34,135 | 33,130 | 1,005 | | 127,271 | 126,619 | 652 |
| **ARIENNIR GAN** | | | | | | | |
| Trethi Annomestig Cenedlaethol | | | | | -22,042 | -22,042 | 0 |
| Dreth Gyngor | | | | | -29,512 | -29,512 | 0 |
| Grant Cytundeb Canlyniadau | | | | | -686 | -686 | 0 |
| Grant Cynnal Refeniw | | | | | -74,390 | -74,390 | 0 |
| | | | | | -126,630 | -126,630 | 0 |

This page is intentionally left blank

# (CRYNODEB hyd yma) BLAEN RAGLEN WAITH PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL 2014-15

| Nifer o EITEMAU | CHWARTER 1<br>1 EBRILL – 3O MEHEFIN Y FLWYDDYN | | | | CHWARTER 2<br>1 GORFFENNAF – 30 MEDI y f. | | | CHWARTER 3<br>1 HYDREF – 31 RHAGFYR y f. | | | | CHWARTER 4<br>1 IONAWR – 31 MAWRTH y f. | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **EBRILL 17** 1 | Mai 6 a 8 | **MAI 12** 2 | Mehefin 25 | **GORFFENNAF 1** 3 | **Awst 28** | **MEDI 1** 4 | Hyd 9 | **HYDREF 14** 5 | Ta ch 17 | **TACH 24** 6 | Ion 7 | **IONAWR 13(B)** + 21(dB) 7 | Ch we 2 | **CHWEFROR 10** 8 | **16 EBRILL** |
| **1** | Dat. o Ddiddordeb | (1) Paratoi ar gyfer **Ch.4** 12 Mai cyfarfod PSC (2) Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd | Datgan Diddordeb | Cyfarfod Briffio Pwyllgor | Datgan Diddordeb | GWYLIAU AELODAU ETHOLEDIG Paratoi am **Ch1** - cyfarfod PSC 1 Medi | Datgan Diddordeb | Cyfarfod Briffio Pwyllgor | Datgan Diddordeb | Paratoi ar gyfer **Ch.2** – cyfarfod PSC 24 Tachwedd | Datgan Diddordeb | Cyfarfod Briffio Pwyllgor | SGRIWTINI CYLLIDEB FFURFIOL Gweler: 10xPenaethiaid a Chyfarfod Anffurfiol i ddrafftio ymateb y Pwyllgor i'r adroddiad Cyllideb P. Gwaith 9/2/15 | Paratoi ar gyfer **Ch3** – Cyfarfod PSC 9 Chwefror | Datgan Diddordeb | - |
| **2 3** | Diweddariad Cadeirydd a Blaenraglen Waith | | Diweddariad Cadeirydd a Blaenraglen Waith | | Diweddariad Cadeirydd a Blaenraglen Waith | | Diweddariad Cadeirydd a Blaenraglen Waith | | Diweddariad Cadeirydd a Blaenraglen Waith | | Diweddariad Cadeirydd a Blaenraglen Waith | | | | Diweddariad Cadeirydd a Blaenraglen Waith | |
| **4** | Cofnodion | | Cofnodion | | Cofnodion | | Cofnodion | | Cofnodion | | Cofnodion | | | | Cofnodion | |
| **5** | Blaenoriaeth au Blynyddol | | Cerdyn Sgorio Ch. 4 1/1-31.3.14 | | ~~Trafodaeth Gychwynnol Cyllideb 2015-16~~ **Adroddiadau Alldro dros dro 1. Ref. 2. Cyfalaf** | | Cerdyn Sgorio Ch. 1 | | Adroddiad Perfformiad Blynyddol | | Cerdyn Sgorio Ch. 2 | | | | Cerdyn Sgorio Ch. 3 | |
| **6** | Cytundeb Canlyniad 2013-16 | | ~~Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Busnes a Rhagoriaeth Busnes~~ | | Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Cymdeithasol | | ~~Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Busnes a Rhagoriaeth Busnes~~ | | Sefydlu Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol Gogledd Cymru | | Byrddau Rhaglen Rhagoriaeth Gwasanaeth a Thrawsnewid Busnes | | | | Byrddau Rhaglen Rhagoriaeth Gwasanaeth a Thrawsnewid Busnes | |
| **7** | Adroddiad Addysg Blynyddol | | **6.-Enwebiadau Pwyllgor Rhiant Corfforaethol** **7.*Uned Cynnal a Chadw Busnes Tai** | | ~~Cofrestr Risg Corfforaethol~~ **2) Gofal Oedolion: Amlwch & Llangefni 3) Garreglwyd** | | **Tai Gofal Ychwanegol** | | **Achos Busnes ar gyfer Gweithio'n Gallach.** | | | | | | | |
| **8** | Data Craidd Awdurdod Addysg | | ~~Monitro Cyllideb Refeniw a Chyfalaf Ch 4~~ 8.**Diogelu plant mewn ysgolion** | | 1)Rhagoriaeth Busnes & 2) Byrddau Rhaglen Trawsnewid Busnes | | Monitro cyllideb Refeniw a Chyfalaf Ch1. | | | | Monitro Cyllideb Refeniw a Chyfalaf Ch2 | | | | Monitro Cyllideb Refeniw a Chyfalaf Ch3 | |
| **9** | ***Uned Cynnal a Chadw Busnes Tai** | | ~~Lein Amlwch~~ Ceisiadau Aelodau- gwersi i'w dysgu, cau B4419 Pentre Berw | | ~~Achos Busnes Gweithio'n Gallach~~ | | ~~Achos Busnes Gweithio'n Gallach~~ | | | | | | | | Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol | |

**ALLWEDD:** Gwyrdd = eitemau newydd ers i'r Pwyllgor gymeradwyo'r Flaenraglen waith Flynyddol 2014-15 yn eu cyfarfod 17/4/14

**DS: 'Adolygiadau Gwasanaeth' Aelodau/Swyddog ym Mehefin a Rhagfyr, edrych yn ôl – Tra, 'Cynlluniau Darparu Gwasanaeth' – edrych ymlaen, yn cynnwys targedau a dangosyddion perfformiad**

# (CRYNODEB hyd yma) BLAEN RAGLEN WAITH PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL 2014-15

**Paneli Canlyniad Sgriwtini Corfforaethol (Grwpiau Tasg a Gorffen ) :**

1. **Costau Gwresogi mewn Tai Cysgodol**
2. **Monitro'r Gyllideb, yn arbennig y Strategaeth Effeithlonrwydd.**

(*docs/Scrutiny FWP 2014-15 D2.3)*

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

***Opsiynau Gofal Ychwanegol yn Amlwch a Llangefni/***
***Extra Care Options in Amlwch & Llangefni***

| | |
|---|---|
| Paragraff(au) 14 Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Paragraph(s) 14 Local Government Act 1972 | |
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd / There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Mae gan y cyhoedd ddiddordeb mewn gwybod am faterion sy'n ymwneud â chynigion y Cyngor ar gyfer datblygu Gofal Ychwanegol.<br><br>There is public interest in knowing of matter which relate to the Council's proposals for developing Extra Care. | Y budd y cyhoedd with beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Y mae'n rhesymol i ddisgwyl bod y wybodaeth sydd yn yr adroddiad yn wybodaeth sy'n fasnachol sensitif, a byddai ei gyhoeddi yn niweidiol i'r Cyngor pan fydd yr Awdurdod yn mynd allan i Dendr ar adeiladu'r Gofal Ychwanegol.<br><br>There is a reasonable expectation that the information contained in the report is commercially sensitive, and its publication would be detrimental to the Council when the Authority goes out to Tender on the building of Extra Care. |
| **Argymhelliad** - Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.<br>**Recommendation** - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.<br><br>Byddai budd y cyhoedd yn cael ei wasanaethu orau drwy ystyried y wybodaeth hon fel gwybodaeth eithriedig Categori 2./The public interest is best served by considering this information as Category 2 exempt. | |

This page is intentionally left blank

Document is Restricted

This page is intentionally left blank